Y DINESYDD

Gorffennaf / Awst

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 419 £1

Tafwyl yn llwyddiant ysgubol eto eleni! Miri a hwyl yn llanw'r lle! Hwb aruthrol i ddelwedd y Gymraeg!

Merched Hoci Cymric ar Garlam

Sefydlwyd tîm Hoci Cymric yn 2013 gan griw o ferched oedd yn awyddus i gael cyfle i chwarae hoci a chymdeithasu yn y Ddinas drwy'r Gymraeg. Hanodd y syniad o lwyddiant Clwb Pêl-droed Cymric, sydd bellach wedi bodoli am bron i hanner canrif.

Erbyn heddiw, mae'r Clwb Hoci wedi llwyddo i ddenu myfyrwyr a merched proffesiynol y Ddinas yn eu hugeiniau a'u tridegau. Mae Is gapten y Clwb, Ffion Davies, sy'n wreiddiol o Fangor, yn canmol pa mor groesawgar ydy'r clwb: "Pan symudais i Gaerdydd llynedd, ro' n i'n gwybod byddai ymuno â thîm yn ffordd wych o wneud ffrindiau newydd, cadw'n heini a chymdeithasu, a dwi'n lwcus mod i wedi dod ar draws y criw yma."

Yn dilyn 3 thymor addawol iawn yn chwarae gemau cyfeillgar yng Nghynghrair Datblygu De Cymru i ffeindio'u traed, penderfynwyd mynd amdani ac ymuno â Chynghrair De Cymru yn y 4edd Is-adran llynedd. Talodd hwnnw ar ei ganfed am i'r tîm gyrraedd y 3ydd safle ar y tabl. Mae eu llwyddiant aruthrol yn eu tymor cyntaf, wedi sicrhau dyrchafiad i'r 3edd Is-adran yn y Gynghrair.

Dywedodd Cadeirydd y clwb, Nerys Griffiths: "Am glwb newydd a chymharol fach i glybiau eraill y Ddinas, sydd â chynlluniau datblygu cryf, a chysylltiadau sefydledig ag ysgolion lleol i warchod talent, mae Hoci Cymric wedi cyflawni her anhygoel eleni."

Wrth drafod dyfodol y clwb, dywedodd: "Y gobaith nawr ydy denu digon o aelodau i allu creu ail dîm, ac efallai sefydlu tîm ieuenctid. Ond, mae'r pwyslais yn dal i fod ar gynnig cyfle i ferched y ddinas gymdeithasu a chwarae hoci drwy'r Gymraeg, er ein bod yn croesawu aelodau sy'n siarad unrhyw iaith!"

Mae croeso i ferched o bob oed a gallu ymuno â Chlwb Hoci Cymric. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch drwy Twitter: @HociCymric neu Facebook: www.facebook.com/hocicymric

Manon Jones

Hywel Samuel & Associates
deintyddfa
dental practice

Your dental practice in the heart of Cardiff.

28 Heol Eglwys Fair/St Mary St,
Caerdydd. CF10 1AB.
T: 029 20371393
E: info@hywelsamuel.co.uk
w: www.@hywelsamuel.co.uk

Sefydlwyd ein deintyddfa annibynnol dros 40 blynedd yn ôl yng nghanol y brifddinas ar Heol Eglwys Fair. Mae ein lleoliad canolog yn ddelfrydol ar gyfer gweithwyr yng nghanol y ddinas.
Rydym yn cynnig triniaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a phreifat ac yn croesawu cwsmeriaid newydd ar hyn o bryd.

Hoffwn estyn croeso cynnes i Aaron Gwynedd o Gaernarfon a Leah Mc Dougall o Aberystwyth sy'n ymuno efo'r practis.

Cysylltwch â ni heddiw i wneud apwyntiad gan nodi HS/Dinesydd.

BAY Resourcing Teaching Agency
STAFF YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG A SAESNEG
Athrawon Cynradd, Cynorthwyydd Dosbarth, a mwy.
Angen ar frys ar draws Cymru - staff o ddydd i ddydd a hir dymor.
FFONIWCH 02920 494 560

JENNINGS
GWASANAETHAU ADDURNO
DANIEL JENNINGS
S: 07775 828009 Ff: 029 2069 2028
E: dan.jennings@hotmail.co.uk
City & Guilds

Y DINESYDD

Golygydd:
Bryan James

Golygydd Medi:
Tîm Menter Caerdydd
Cyfraniadau erbyn 27 Awst i:
leanne@mentercaerdydd.cymru
Menter Caerdydd, 42 Lambourne Crescent,
Llanisien, Caerdydd, CF14 5GG
029 20689888

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestyn@gmail.com
63 De Burgh St., Glan-yr-afon,
Caerdydd, CF11 6LB
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774816209

Tanysgrifiadau i:
Jöel D'Auria
joel.dauria@gmail.com
53 Melrose Avenue, Penylan,
Caerdydd , CF23 9AT
07540057783

www.dinesydd.cymru
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd.
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
GRIFFIN BOOKS, Penarth
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP BODLON, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

LLWYDDIANT TAFWYL 2017

Mae Gŵyl Tafwyl wedi bod yn llwyddiant enfawr eto eleni. Yn ôl Menter Caerdydd, trefnwyr yr ŵyl, daeth dros 38,000 i Tafwyl 2017 – yn cynnwys digwyddiadau wythnos ffrinj Tafwyl a'r prif ddigwyddiad ar y 1af a'r 2il o Orffennaf.

Cafodd Tafwyl 2017 ei chynnal yng Nghaeau Llandaf yn hytrach na'r Castell eleni ac, ar adegau prysur, roedd dros 8,000 o bobol yn mwynhau'r digwyddiad ar yr un pryd. Roedd Tafwyl 2017 hefyd wedi denu mwy o bobol ifanc nag erioed o'r blaen yn ogystal â nifer mawr o bobol o ledled y wlad oedd yn mynychu Tafwyl am y tro cyntaf.

Ymysg uchafbwyntiau'r Ŵyl roedd: sesiwn gyda rheolwr tîm pêl-droed Cymru, Chris Coleman; perfformiadau gan Geraint Jarman, Yws Gwynedd, Candelas a Meic Stevens; prosiect bandiau ysgolion Tafwyl, gyda pherfformiadau gan fandiau Ysgolion Fitzalan, Whitchurch High, Glantaf, Plasmawr a Bro Edern.

Dywed y trefnwyr: *"Unwaith eto mae Tafwyl wedi profi ei bod yn un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr y ddinas – yn codi proffil cerddoriaeth, celfyddydau a diwylliant Cymru. Mae'r digwyddiad hefyd wedi cael effaith bositif iawn ar y gymuned leol, a hoffwn ddiolch i bawb am roi croeso cynnes i ni."*

Cafodd Tafwyl 2017 ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Prifysgol Caerdydd, Celfyddydau a Busnes Cymru, Cronfa Loteri Fawr a BBC Cymru. Cafodd hefyd ei noddi gan New Directions, Capital Law, Equinox Communications, Clwb Ifor Bach, Jiráff Gwyrdd, Academi Hywel Teifi a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Talfyriad o adroddiad Elin Rees

CADAIR ARALL I MARTIN

Martin Huws o Ffynnon Taf enillodd y Gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn Llanrwst ar yr 17eg o Fehefin.

Brodor o Gaerdydd yw Martin oherwydd symudodd ei rieni o Lanelli i'r ddinas ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Aeth i Ysgol Uwchradd Cathays ac mae ei ddyled yn fawr, meddai, i'r athro Cymraeg, Elvet Thomas, a'r athro Ffrangeg, Ted Poole.

Mae wedi cyhoeddi dwy nofel a chyfrol o straeon byrion. Yn 2007 roedd ei nofel *Mae Heddwch yn Brifo* am brofiadau milwr oedd wedi bod yn Rhyfel y Falklands/ Malvinas yn ail yng Nghystadleuaeth Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y llynedd enillodd Gadair Gŵyl Aberteifi a Choron Eisteddfod Llambed. Dywedodd fod ei ddyled yn fawr i diwtoriaid y dosbarthiadau cynganeddu o dan nawdd Menter Caerdydd, Emyr Davies, Rhys Iorwerth ac Osian Rhys Jones.

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Brethyn Cartref yng nghwmni tri o ffyddloniaid Aelwyd Hamdden a gafwyd yn ein cyfarfod ar Fehefin 8fed – Marian Lake, Rhian Ruddock ac Wyn Morris. Y tri o Sir Gâr a'r tri yn rhannu atgofion bore oes am eu milltir sgwâr.

Aeth Marian â ni i Benygroes, pentre bychan, gwledig, cyn dyfod Y Chwyldro Diwydiannol. Pan agorwyd glofa'r Emlyn fe drodd y pentre bach yn un o bentrefi pwysig ardal y glo carreg, a'r lofa yn atynfa i weithwyr a'u teuluoedd o bob rhan o Gymru. Roedd capeli di-ri yn y pentref a dyma hefyd fan geni'r mudiad Apostolaidd a'i Deml enwog.

Dechreuodd stori Rhian Ruddoch yn nhŷ capel Llwyn yr Onnen, a chafwyd atgofion am gasglu gwlân defaid o'r llwyni, a'i thad yn gwneud ffyn a gwaith coed. Cawsom weld rhai enghreifftiau. Roedd ganddo ddawn trin anifeiliaid hefyd gyda chymorth hen feddyginiaethau. Teimladwy oedd diweddglo stori Rhian pan ddarllenodd gerdd o waith ei diweddar ŵr, Gilbert, yn seiliedig ar ei ddallineb.

Ac yna aeth Wyn â ni i ardal Gwaun Cae Gurwen a Chwm-gors a'i atgofion am y Neuadd Fawr. Yr Opera oedd un o uchafbwyntiau'r calendr cymdeithasol gyda hyd at 100 o gantorion yn cymryd rhan. Roedd ffilmiau'n cael eu dangos yn y neuadd hefyd, a chiwiau hir yn ffurfio pan fyddai ffilmiau megis *Gone With the Wind* yn cael eu dangos. Ond pe byddai ffilm â golygfeydd 'amheus' fe fyddai'r llenni mawr yn cael eu cau gan un oedd yn gweithio yno, oedd yn digwydd bod yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr.

Ar Fehefin 21ain, yng nghyfarfod olaf rhaglen 2016-17, mwynhawyd te mefus a baratowyd gan ferched y gegin dan arweiniad Audrey Lake. Y gwestai oedd y gitarydd clasurol dawnus, Rhisiart Arwel. Syfrdanodd pawb wrth weld y bysedd chwim yn trin y tannau wrth gyflwyno datganiadau soniarus ac amrywiol.

Trefnwyd taith ar Fehefin 28ain i Amgueddfa Aneurin Bevan yn Nhredegar. Bydd tymor newydd yr Aelwyd yn cychwyn ar Fedi 6ed.

Y Cylch Cinio

Croeso i bawb, yn ferched a dynion, i ymuno â ni yn y tymor newydd fydd yn dechrau nos Lun, Hydref 2il. Y gwestai cyntaf yn rhaglen 2017-18 fydd Sioned Hughes, Prif Weithredwraig Yr Urdd, o Rhuthun yn wreiddiol, ond bellach yn byw gyda'i theulu yma yng Nghaerdydd.

Ein man cyfarfod, yn ôl ein harfer, yw Rhif 10 (Jolyons) Ffordd Y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ – lleoliad cyfleus (lle i barcio am ddim ar y stryd ar ôl 6.30), yr ystafell fwyta'n chwaethus, y bwyd yn dda a'r cwmni'n ddiddan. Cofiwch, does dim tâl aelodaeth – gellwch ddod i un neu fwy o'n cyfarfodydd, ond i chi archebu bwyd ymlaen llaw. Cost pryd dau gwrs ydi £17.00 ac mae dewis da. Byddwn yn cyfarfod o tua 7.00 ymlaen (bar ar gael) ac eistedd i gael bwyd am 7.30. Anelwn at orffen cyn 10.00. Erychwn ymlaen at eich croesawu.

Alwyn Evans
(Llywydd)

Os am fanylion pellach, neu i ymuno â'r rhestr dosbarthu, e-bostiwch cylch.cinio@gmail.com neu ffoniwch Peter Gillard (Ysgrifennydd y Cylch) ar 078 5900 7406

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr y Dinesydd

Fe wyddoch chi eisoes am frwydr ddygn Beti George i wella bywydau'r rhai sy'n byw gyda dementia bob dydd. Mae hi nawr yn awyddus i siarad â gofalwyr er mwyn casglu tystiolaeth i'w chyflwyno i wleidyddion a'r rhai sy'n llunio polisi gofal dementia.

Dewch i gwrdd â Beti yn stondin Prifysgol Bangor ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Môn. Bydd hi yno ar y boreau canlynol: dydd Mawrth, Awst 8fed: 10-11; dydd Mercher y 9fed: 10-12 a dydd Iau y 10fed: 10-12

Mae Beti a chwmni cynhyrchu teledu, Silin, yn gwneud rhaglen ar gyfer S4C am ofalwyr dementia felly bydd camerâu yno ac efallai y byddwch yn cael eich ffilmio. Mae'n bosib bydd y tîm cynhyrchu yn gofyn i chi a gallan nhw eich ffilmio yn siarad â Beti.

Os hoffech ragor o wybodaeth am gwrdd â Beti yn yr Eisteddfod, mae croeso i chi gysylltu â Dinah Jones: dinah@silin.co.uk 07804 260042

Diolch yn fawr,

yn gywir *Dinah Jones*

Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom noson i'w chofio wrth i'r gangen orffen tymor 2016-17. Daeth criw da ohonom ynghyd i fwynhau taith ar fwrdd y cwch *Y Dywysoges Katherine*. Wrth i ni deithio'n hamddenol i lawr afon Taf cawsom sgwrs ddifyr gan berchennog y cwch am yr hyn oedd i'w weld o'n hamgylch. I goroni'n taith cafwyd gosgordd o elyrch gosgeiddig i'n hebrwng o'r Taf i'r Bae.

Roedd popeth o'n plaid ar y noson: y tywydd yn braf a chynnes; y cwmni yn ddifyr a llon ac yna pryd o fwyd blasus yn y caffi bach i lawr yn y Bae o'r enw *The look out café at the world of boats.* Ar ôl y bwyd cawsom grwydro o gwmpas a chael eistedd i werthfawrogi yr olygfa brydferth o'n blaenau gyda'r haul yn machlud yn gefndir iddi. Yna fe'n cyrchwyd yn ôl ar y cwch i barc Bute yn y ddinas. Roedd amryw ohonom yn mynegi geiriau'r gân *O na byddai'n haf o hyd*.

Wrth orffen ein tymor eleni mae'n rhaid diolch i'r swyddogion am eu gwaith diflino drwy'r tymor. Diolch i Ann am lywio pob cyfarfod yn arbennig o effeithiol a chyda gwên bob amser; i Eirlys am waith cyson yn trefnu a gyrru e byst i'r aelodau yn ein hatgoffa am y cyfarfodydd a chysylltu gyda siaradwyr; ac i Erith am ei gofal am gyllid y gangen.

Byddwn yn ail gychwyn y tymor newydd ar Fedi 6ed ac mae croeso cynnes iawn yn disgwyl yr holl aelodau gan hyderu y dowch â ffrind gyda chi – i fwynhau y cyflwyniadau cyfoethog a'r gwmnïaeth ddifyr.

Rowenna E Thomas

Rhai o ferched y gangen yn gwledda ym Mae Caedydd!

Pobol y Rhigwm

Mae'n amlwg fod darllenwyr a rhigymwyr Y Dinesydd wedi cael llond bol ar etholiadau ac ar wleidyddion, ac na ddenwyd neb i gystadlu ar y testun Y Gwleidydd. Da iawn, mae hynny'n glod i'r darllenwyr – mae'r beirniad o'r un farn am y byd gwleidyddol! Felly, rhanned y wobr rhwng holl drigolion y brifddinas a'r Fro.

Y dasg nesaf yw: Brysneges ar y llythyren B. Hynny yw, rhywbeth fel:

Brysia Bethan... bania'r byrgers... bydd bola Beni'n byrstio...

gan obeithio bod yr ymdrechion yn well na hwn!

Anfonwch y tasgau at db.james@ntlworld.com erbyn 5 Medi (gan nad oes rhifyn ym mis Awst).

Emyr Davies

Cywiro dyddiad. Oherwydd blerwch ar ran db.j rhoddwyd y dyddiad anghywir ar gyfer derbyn ceisiadau ar lunio limrig yn cynnwys y llinell 'Mae'n bryd i ni gynnal etholiad' (gweler rhifyn Mehefin). 10 Gorffennaf oedd e i fod, nid 10 Mehefin! Dim rhyfedd na chafwyd ymateb! **Gan nad oes rhifyn ym mis Awst, beth am gynnig y limrig erbyn 10 Awst?** Diolch. db.j

---

menter caerdydd

ww.mentercaerdydd.cymru

FFÔNLYFR MENTER CAERDYDD

Trydanwyr // Plymwyr // Garddwyr // Tiwtoriaid // Cyfreithwyr a Chyfrifwyr // Trin Gwallt a Harddwch // Adloniant // Dylunwyr // Gofal Plant // Cyfieithwyr a llawer mwy...

Ydych chi'n cynnig neu'n nabod rhywun sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng Gymraeg yn y ddinas? O waith yn y cartref neu wasanaethau proffesiynol, ac o gwmnïau mawr i unigolion, bwriad y Ffônlyfr yw cynnig casgliad cynhwysfawr o wasanaethau Cymraeg y ddinas.

Fel rhan o ail ddylunio gwefan Menter Caerdydd, rydym yn edrych i ail-lansio'r Ffonlyfr, a lansiwyd gyntaf yn 2005, gyda mwy o fusnesau a chwmnïau nag erioed. Bydd CYNNIG ARBENNIG i gofrestru eich gwasanaeth AM DDIM dros yr Haf, felly cysylltwch gyda Leanne yn swyddfa Menter Caerdydd ar unwaith i sicrhau lle yn y Ffônlyfr newydd!

leanne@mentercaerdydd.cymru
029 2068 9888

BWRLWM
EISTEDDFOD CAERDYDD

Dathlu'r Cyhoeddi

Daeth cannoedd o bobl i Gaerdydd ddydd Sadwrn y 24ain o Fehefin i ddathlu ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â'r brifddinas ymhen ychydig dros flwyddyn. Gyda seremoni liwgar ar y lawnt y tu allan i Neuadd y Ddinas a gorymdaith o gannoedd drwy ganol y ddinas, roedd yr ardal yn llawn bywyd ac yn gyfle i weld un elfen o'r hyn a fydd yn dod i Fae Caerdydd y flwyddyn nesaf.

Yn ddi-os, uchafbwynt y dydd oedd seremoni'r Cyhoeddi, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol, Ashok Ahir, yn cyflwyno'r copi cyntaf o'r Rhestr Testunau i'r Archdderwydd, Geraint Llifon. [Gellir prynu'r Rhestr Testunau ar-lein neu mewn siopau llyfrau ar draws y bddinas a'r Fro.]

Ashok Ahir yn cyflwyno'r copi cyntaf o'r Rhestr Testunau i'r Archdderwydd

Meddai Ashok, "Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Eisteddfod a'r tîm yn lleol yng nghanol y ddinas. Roedd yn braf iawn gweld cymaint o bobl yn rhan o'r orymdaith, a'r digwyddiad yn ystod y dydd. Mae ymwybyddiaeth o ymweliad yr Eisteddfod wedi bod yn codi ar draws y ddinas dros y misoedd diwethaf, ac mae'r Cyhoeddi'n uchafbwynt yr hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn.

"Nawr, mae gennym ni ychydig dros flwyddyn i sôn wrth bawb am ein cynlluniau, y syniadau uchelgeisiol sydd gennym ar gyfer wythnos yr Eisteddfod ei hun, ac i annog pobl o bob rhan o Gymru a thu hwnt i ddod atom. Erbyn heddiw, mae'r Eisteddfod yn cael ei chydnabod fel un o'r gwyliau mawr, ac roedd y Cyhoeddi'n gyfle i ddangos un o'i thraddodiadau i bawb.

"Ond dim ond un agwedd o'r Eisteddfod a welwyd yng nghanol y ddinas ddoe. Mae llawer iawn mwy i'r Eisteddfod erbyn hyn, dros fil o weithgareddau o bob math yn dathlu pob elfen o ddiwylliant - a chynulleidfa eang iawn sy'n gynyddol ifanc. Mae'r Eisteddfod yn ŵyl sy'n datblygu ac yn esblygu ac rydym ni yma yn y brifddinas yn benderfynol o fod yn rhan o'r datblygiad hwn ac yn mynd i sicrhau bod Eisteddfod Caerdydd y flwyddyn nesaf yn un o'r goreuon eto."

Ychwanegodd Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Mae 'na egni arbennig ymysg y tîm yng Nghaerdydd, ac mae Ashok a'r criw wedi llwyddo i bontio rhwng cenedlaethau mewn ffordd arbennig iawn. Dyma ymweliad cyntaf yr Eisteddfod â'r brifddinas ers degawd, ac mae'r ddegawd hon wedi bod yn un o'r cyfnodau mwyaf allweddol yn hanes yr Eisteddfod.

Y Ddawns Flodau oedd yn rhan o'r seremoni

"Rydym wedi gweld yr ŵyl yn esblygu'n rhyfeddol yn ystod y cyfnod hwn, a chredaf ein bod ni'n gweld mwy a mwy o bobl ifanc yn teimlo bod yr Eisteddfod yn berthnasol iddyn nhw ac yn gyfle i ddathlu eu diwylliant a'u cenedligrwydd, ond hynny heb golli'r traddodiad a'r hyn sy'n denu'r gynulleidfa hŷn atom. Gobeithio y bydd yr egni a'r brwdfrydedd rydym eisoes wedi'i weld yn ardaloedd Caerdydd yn parhau dros y flwyddyn nesaf ac ymhell i'r dyfodol.

"Diolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed yng Nghaerdydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a diolch hefyd i Gyngor Caerdydd am eu cydweithrediad parod a'u cefnogaeth. Mae llawer o waith ar ôl i'w wneud wrth drefnu'r Eisteddfod yn y Bae, ond rwy'n hyderus iawn y bydd Ashok a'i dîm yn llwyddo i ddarbwyllo pobl o bob rhan o'r ddinas, Cymru a thu hwnt, i ddod atom ddechrau Awst y flwyddyn nesaf."

Gwenllïan Carr
Pennaeth Cyfathrebu yr Eisteddfod

Cymanfa'r Cyhoeddi

Cynhaliwyd y Gymanfa nos Sul, 25 Mehefin, yng nghapel Tabernacl Yr Ais, gydag Alwyn Humphreys yn arwain a Marc Jon Williams wrth yr organ. Mwynhawyd eitemau hyfryd iawn gan Côrdydd, a Charlie, Harry ac Eirlys Lovell-Jones. Rhagdybiaf y bydd gwledd gerddorol ar ambell i raglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn ystod y 12 mis nesaf.

Ychydig dros 225 oedd yno ond roedd y canu cynulleidfaol yn wefreiddiol am dros ddwy awr. Anaml iawn y dyddiau hyn cawn gyfle i forio hen emyn-donau fel Nasareth, Maes-Gwyn, Clawdd Madog, Trewen a Rhyd-y-Groes i orffen. Roedd un emyn-dôn yn anghyfarwydd i sawl un sef 'Ein Cadarn Dŵr,' Martin Luther a threfniant J S Bach. Edrychwn ymlaen i glywed ein 'perfformiad' o hwn!

Roedd pawb yn gyfarwydd â 'Blaencefn' John Thomas ond annisgwyl oedd carol gan Hedd Wyn 1887-1917. Fel y cyfeiriodd Alwyn Humphreys, mor eironig, wrth i 31 Gorffennaf 2017 brysur agosáu, yw'r geiriau yn y trydydd pennill:

'Deuwch engyl eto i ganu uwch ein hen ryfelgar fyd,
Cenwch wrtho am yr Iesu all dawelu'r brwydrau i gyd,
Yn y moliant uned holl deyrnasoedd byd.'

Na, doedd Hedd Wyn druan ddim ar gael i ddathlu Nadolig 1917, na sawl miliwn arall…

Gwilym Dafydd

Cyfuno Gŵyl Ifan a'r Eisteddfod

Fe ddathlwyd Gŵyl Ifan ar ei newydd wedd dros benwythnos 24 Mehefin, pan ddaeth dawnswyr o Fôn i Forgannwg i gyd-ddathlu'r Ŵyl gyda Chwmni Dawns Werin Caerdydd. Law yn llaw gyda'r Ŵyl eleni oedd seremoni cyhoeddi Eisteddfod Caerdydd 2018, felly roedd digon o ddathlu tradoddodiadau Cymreig ar y gweill yn y brifddinas.

Agorwyd Gŵyl Ifan gyda barbeciw yn y Mochyn Du ar y nos Wener – noson gymdeithasol, hwyliog iawn gyda llwyth o ffrindiau hen a newydd yn dod at ei gilydd a chodi gwydryn neu ddau at ganol haf.

Yr orymdaith hwyliog

Ar fore Sadwrn, gorymdeithiodd torf liwgar o ddawnswyr trwy'r ddinas gyda'r Pawl Haf ac unwaith eto cafwyd y cyfle i esbonio hen arferion y Cymry i drigolion a thwristiaid chwilfrydig Caerdydd. Codwyd y Pawl o dan wên yr haul tra bod y rhubannau aml-liw'n chwythu'n braf yn yr awel wrth ymyl yr orsedd. Roedd ychydig o ddawnsio o gwmpas y meini cyn gorymdeithio gyda'r Eisteddfod o gwmpas y ddinas unwaith eto.

Dawnsio o flaen Neuadd y Ddinas

Gyda chalonnau llon ond traed poenus, cafwyd un daith olaf cyn gostwng y pawl – rhag lladron! Gorffennwyd yr Ŵyl yn yr Angel gyda bwffe swmpus a thwmpath llawn dawnsio di-ri tan oriau mân y bore.

Cytunwyd gan bawb bod yr "Ŵyl newydd" yn un hwyliog iawn!

****

Gweithgareddau Lleol

Mae'r Pwyllgorau Apêl led-led yr ardal yn weithgar tu hwnt. Dyma rai o'r hanesion. Croeso i bawb ddefnyddio'r Dinesydd i roi cyhoeddusrwydd i'ch gweithgareddau.

Pwyllgor Apêl Rhiwbeina a Llanisien

Cyngerdd 'Mewn harmoni!'

Yng Nghapel Bethany nos Sadwrn, 10 Mehefin, daeth Côr Caerdydd a Chôr Ysgol y Wern at ei gilydd mewn harmoni i gefnogi Apêl Rhiwbeina a Llanisien. Mae Côr Caerdydd, dan arweiniad Gwawr Owen, yn dathlu 25 mlynedd ers ei sefydlu eleni ac wedi ennill 11 gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Côr Ysgol Y Wern, dan arweiniad Mair Long, hefyd wedi cael sawl llwyddiant mewn eisteddfodau a chystadlaethau dros y blynyddoedd ac wedi perfformio a chefnogi gwahanol ddigwyddiadau ac elusennau. O'r hyn glywsom gan y côr ifanc ar y noson, fydd Côr Caerdydd ddim yn brin o leisiau am y 25 mlynedd nesaf ychwaith. Diolch i Eleri am drefnu a phawb fu'n ei helpu.

Ibiza, Ibiza

Glenys a Rhisiart

Fe'n hedfanwyd yn ôl i'r 80au ym mis Mehefin gyda noson o wylio'r ffilm eiconig *Ibiza, Ibiza* yn y Rec Rhiwbeina yng nghwmni Caryl Parry Jones a Siw Hughes. Roedd yn braf gweld cymeriadau fel Glenys a Rhisiart, Delyth a Bethan ac Enfys a Lavinia unwaith eto a chlywed am helyntion Caryl a Siw yn ystod y ffilmio. Bu sawl un yn twrio yn yr atig a siopau elusen am eu *shell suits*, sgerti *tutu* a'u *leg warmers* ar gyfer y noson, a llongyfarchiadau i Non a Mark am eu dehongliad nhw o Glenys a Rhisiart. Diolch i Lisa a Gwenan am drefnu noson 'briliant, piliant'.



Huw Ll Davies, Gwenan a Huw Thomas

Nosweithiau sbeislyd

Yn dilyn llwyddiant ein noson gyrri gyntaf yn gynharach eleni cynhaliwyd noson arall ddiwedd Mehefin yn y Juboraj, Rhiwbeina. Rygbi'r Llewod oedd thema'r noson ac fe'n diddanwyd gan Huw Llywelyn Davies gyda'i hanesion ffraeth am rygbi a'r gwahanol chwaraewyr dros y blynyddoedd. Diolch i Dafydd Morse am ei gwis heriol ar thema'r 'llewod' oedd yn profi ein gwybodaeth am gymeriadau cartŵn, enwogion y genedl, chwaraewyr rygbi ynghyd â thafarndai o bob cwr o Gymru.

O dan forthwyl Huw Llywelyn cynhaliwyd ocsiwn o bêl rygbi wedi'i harwyddo gan Sam Warburton, sy'n byw yn Rhiwbeina. Llongyfarchiadau i Huw Thomas am ei chipio gyda'i gynnig uchaf. Diolch i Catrin, Siwan, Elliw, Lisa ac eraill am drefnu'r noson a'r raffl. Bydd noson gyrri arall yn yr hydref – byddwn yn argymell eich bod yn archebu eich tocyn nawr!

Gweler *Y Digwyddiadur* (tud.20) am fanylion y gwahanol ddigwyddiadau eraill sydd wedi'u trefnu, neu cysylltwch â ni ar : apel_rhall@outlook.com neu dilynwch ni ar Trydar: @ApelRhall

Pwyllgor Apêl Treganna, Parc Fictoria a Phontcanna

I'r rhai ohonoch sy'n byw i'r gorllewin o ganol y ddinas, mae'n debyg eich bod wedi clywed, bellach, am weithgareddau Pwyllgor Apêl Canna. Ac er mai 'Pwyllgor' yw'r enw arno, yr hyn ydyw, mewn gwirionedd yw criw o bobl yn dod at ei gilydd i drefnu gweithgareddau codi arian, a chael hwyl wrth wneud hynny. Ond, nid criw egsglwsif o ffrindiau ydym – mae digon o le i bobl eraill ymuno â ni. Rydym yn cwrdd, fel arfer ym Mae Maria, ar Heol Ddwyreiniol y Bontfaen ac mae'r cyfarfodydd yn dechrau am tua 7.30, gan gario ymlaen tan yn hwyr iawn ar adegau. Mae'r trafod 'ffurfiol' yn aml iawn yn troi'n gyfle i gymdeithasu a hel syniadau ymysg ein gilydd – ambell i syniad yn fwy dwl na'i gilydd, efallai.

Mae'r digwyddiadau sydd wedi digwydd yn barod yn cynnwys:

Gig y Cyhoeddi

Mi oedd hon yn noson fythgofiadwy yng nghwmni Mei Gwynedd a Chyfeillion ym Mae Maria, ac os nad oeddech chi yno, allwn ni ddim ond teimlo trueni drosoch chi. Mi gafwyd detholiad arbennig o hen ffefrynnau, a phawb yn mwynhau, yn cyd-ganu a dawnsio. Gwych!

Mai a Mehefin Mawr.

Cafodd ambell i ddigwyddiad ei drefnu gan griw bach ar raddfa lai na'r hyn sy'n cael ei drefnu fel arfer gennym, fel y Te Prynhawn yn Pettigrews - syniad hyfryd, i ymlacio'n braf a chael sgwrs hefo ffrindiau.

Cwis ar 8 Mehefin.

Cafwyd cwis heriol, ond hwyliog yng nghwmni'r Cwisfeistr Dewi 'Chips' yn y Mochyn Du, ym Mhontcanna. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi. Rydym wedi cael blas ar y cwis, a'r bwriad yw trefnu un yn rheolaidd – unwiath y mis, efallai neu bob chwe wythnos, mewn gwahanol leoliadau er mwyn rhoi cyfle i bawb ymuno i mewn.

Ac mae llawer mwy o ddigwyddiadau ar y gweill cyn i bawb ddiflannu i Fôn ym mis Awst. Cofiwch ddod i ymuno â ni yn y digwyddiadau canlynol. Mae'n siwr fod rhywbeth at ddant pawb, ond os nad oes, dewch i drafod hefo'r 'pwyllgor' – cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol, neu dewch i un o'r digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gennym:

Taith Hanesyddol ar 14 Gorffennaf o amgylch tafarndai'r ardal gyda Dylan Foster Evans**.**

Cinio Dathlu Datganoli ar 22 Medi yng Ngwesty'r Exchange, Bae Caerdydd, gyda Guto Harri a gwesteion arbennig eraill.

Cyngerdd gyda Claire Jones yn y Tabernacl ar 7 Hydref

Dilynwch ni@pwyllgorcanna

Pwyllgor Apêl Treganna, Parc Fictoria a Pontcanna - Eisteddfod 2018

pwyllgorcanna@gmail.com

ADDYSG GYMRAEG

– sefyllfa Medi 2017 yn aneglur

Roeddwn wedi gobeithio cael darlun cliriach o sefyllfa'r mynediadau cynradd erbyn hyn ond cael fy siomi yw fy nhynged.

Derbyniais daenlen yn dangos y sefyllfa yn y 10 ysgol heb eu llenwi erbyn canol Ebrill; mae'r 7 ysgol arall oedd yn orlawn bryd hynny yn parhau felly. Yn annisgwyl, dim ond 5 disgybl ychwanegol sy wedi manteisio ar y llefydd gwag – 4 yng Nghoed-y-gof ac 1 yng Ngwaelod-y-garth. Mae sefyllfa Bro Eirwg heb newid, gydag 1 lle gwag. Ond, am resymau anhysbys, mae nifer y mynediadau yn y 7 arall gyda'i gilydd (Glan Ceubal, Glanmorfa, Hamadryad, Pen-y-Groes, Pen-y-pil, Y Berllan Deg a'r Creigiau) wedi disgyn o 13. Mae'n debyg bod nifer o apeliadau heb eu clywed eto ond rwy'n gwybod bod y panel apêl wedi caniatáu mynediad i 2 ychwanegol i Ysgol Treganna i godi nifer y plant yno i 92.

Mae'n ymddangos bod nifer o rieni yn gwrthod derbyn lle mewn ysgol ail ddewis ac yn hoelio eu gobeithion ar apêl – sydd yn annhebyg o lwyddo o ystyried ystadegau'r gorffennol.

Teg yw nodi sefyllfa annerbyniol rhieni Pencae, Melin Gruffydd, Y Wern a Mynydd Bychan, yn arbennig yr olaf yn y rhestr. Rhyngddynt mae 68 plentyn wedi methu cael lle ac mae'r 4 yn ffinio ar ei gilydd a felly nid oes modd i un dderbyn plant sy'n gorlifo o'i chymydog. Mae mwy o blant yn methu cael lle ym Mhencae (20) a Melin Gruffydd (18) na all Glan Ceubal eu derbyn. Mae'r 5 sy wedi methu yn Y Wern ond yn gallu ystyried Pen-y-groes (ym Mhentwyn). Mae gorlif Mynydd Bychan (25), sy wedi arfer troi at Y Wern, nawr yn gorfod ystyried Pen-y-Groes, neu Glanmorfa (yn Sblot) neu Hamadryad (yn y Bae). I gael lle ym Mynydd Bychan mae angen i'r plentyn fyw ddim pellach na 0.3 milltir i ffwrdd.

Mae cynrychiolwyr RhAG wedi galw ar y Sir i ddarparu 2 ffrwd ychwanegol i gwrdd â'r twf tebygol i 900 disgybl erbyn Medi 2018, ac i leoli 1 ffrwd fel rhan o Ysgol Mynydd Bychan ac un arall fel rhan o Goed-y-gof (dros dro) i dderbyn y plant o'r 4 ysgol sy'n ffurfio grŵp yng nghanol gogleddol Caerdydd – Pencae, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan a'r Wern.

Michael Jones

BYD LLYFRAU

DARLLEN DROS GYMRU

Dwy o ysgolion cynradd Caerdydd yn disgleirio

Roedd Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth dan ei sang gan blant o bob cwr o Gymru ar 21 a 22 Mehefin pan ddaethant i gymryd rhan yn rowndiau cenedlaethol Darllen Dros Gymru, sef cystadlaethau llyfrau a drefnwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer plant ysgolion cynradd yng Nghymru.

Gwelwyd 32 o dimau o ysgolion ledled Cymru yn cystadlu am wobrau arbennig trwy drafod ystod eang o lyfrau a chyflwyno perfformiadau'n seiliedig ar gyfrolau penodol a ddarllenwyd ganddynt.

Rowndiau cenedlaethol y cystadlaethau yw penllanw'r gweithgareddau sy'n digwydd drwy Gymru dros sawl mis, gyda disgyblion yn cystadlu am yr anrhydedd o gynrychioli eu siroedd.

Disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ddydd Mercher, 21 Mehefin, a llongyfarchiadau i **Ysgol Pen-y-Groes,** am ddod yn gydradd drydydd.

Tro disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 oedd hi ddydd Iau, a llongyfarchiadau i **Ysgol Melin Gruffydd,** am ddod yn drydydd.

Fel rhan o weithgareddau'r rowndiau cenedlaethol, cafodd y plant a'r athrawon gyfle i fwynhau sesiynau yng nghwmni'r awdur Anni Llŷn – ac fe gafodd pob plentyn a gymerodd ran ddewis llyfr yn rhad ac am ddim.

Tîm Ysgol Pen-y-Groes (Blwyddyn 3 a 4)
Yn y cefn: Helgard Krause (Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau) Charleigh, Lily, Alana.
Yn y blaen: Katie, Megan, Daisy, Lilyella, Evie

Tîm Ysgol Melin Gruffydd (Blwyddyn 5 a 6)



COFIO HEDD WYN

Dyma gyfrol newydd, hardd gan Robin Gwyndaf – yr awdur toreithiog, ac un o gefnogwyr brwd Y Dinesydd. Mae'n cynnwys detholiad helaeth o gerddi Hedd Wyn, difyr a dwys, ac atgofion gwerthfawr rhai o gyfeillion hoff y bardd.

Mae hyn yn amserol iawn gan ein bod yn cofio marwolaeth Hedd Wyn union gan mlynedd yn ôl ar 31 Gorffennaf.

Os byddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn, beth am alw ym Mhabell y Cymdeithasau 1 am 1.00 o'r gloch dydd Gwener, 12 Awst, i ymuno yn y lawnsiad? Cewch groeso a gwledd!

Cyhoeddir y gyfrol gan Y Lolfa – clawr caled; 400 tudalen; 160 o luniau – a bydd ar werth yn ein siopau lleol. Pris £14.99.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Cyfarchion

Daliwn i gofio am Eunice Davies ac Ann James Morse yn eu gwendid. Cofiwn hefyd am ein cyn-weinidog, Gwynn Williams, wrth iddo dderbyn triniaeth cemotherapi.

Priodas

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Hannah Morris ac Iwan Taylor ar eu priodas yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Criced. Llongyfarchiadau mawr i Esther Woolley sy'n ddisgybl yn Ysgol Melin Gruffydd ar gael ei dewis yn aelod o sgwad Merched dan 12 Cymru.

Gwyddbwyll. Llongyfarchiadau i Rhodri George ar ennill twrnament gwyddbwyll Ysgol Gwaelod y Garth. Caiff fynd ymlaen nawr i gystadlu yn y 'Giga Final' ym Manceinion.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl blant y capel fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar.

Pattaya

Yn ddiweddar daeth Nerys King, sydd yn un o blant yr eglwys, atom i'r cwrdd merched 'Paned a Sgwrs' i sôn am sut mae hi a'i gŵr, Tom, yn paratoi i fynd yn genhadon i Wlad Thai. Mae Tom yn cwblhau cwrs mewn coleg diwinyddol ac mae Nerys, sydd yn nyrs seicatryddol, yn ennill cymhwyster cwnsela.

Bwriad y ddau yw mynd i Pattaya, sydd bellach wedi tyfu i fod yn brifddinas rhyw y wlad. Maent wedi ymweld â Pattaya sawl gwaith ac mae ganddynt faich arbennig dros y merched sydd wedi cael eu denu a'u caethiwo yn y diwydiant didrugaredd yma. Yn aml ni allant ymryddhau o afael y diwydiant gan fod eu teuluoedd yn ddibynnol arnynt yn ariannol. Gobaith Nerys a Tom yw mynd i Pattaya y flwyddyn nesaf. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu gwaith.

Yn ôl i Gaerdydd

Ein pregethwr gwâdd y Sul o'r blaen oedd y Parch Aneirin Glyn sy'n ficer yn eglwys Bened Sant yn Llundain. Roedd Aneirin yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol y Wern ac mae bob amser wrth ei fodd yn dod yn ôl i Gaerdydd. Cawsom ddwy neges heriol ganddo.

Yn y bore pregethodd ar hanes Bartimeus yn galw ar Iesu Grist am drugaredd, gan ofyn am gael ei olwg yn ôl. Pwysleisiodd mai angen trugaredd Iesu Grist sydd arnom ninnau hefyd.

Testun yr hwyr oedd yr hanes am Mair yn eneinio traed Iesu Grist â'r enaint gwerthfawr, gan ddangos ei chariad angerddol tuag ato. Roedd y weithred hon yn cyferbynnu ag agwedd Jwdas wrth iddo ei hystyried yn wastraff. Gadawyd ni â'r cwestiwn i bwy yr ydym ni yn ymdebygu.

SALEM, TREGANNA

Bedyddiwyd Ela Gwawr, merch Meleri a Heulyn ar 18 Mehefin yn Salem. Dymuniadau gorau i chi fel teulu i'r dyfodol.

Cafwyd dwy gêm hynod o gyffrous o griced yn ystod y mis, yn erbyn staff ysgolion Plasmawr a Llangynnwyd – nosweithiau hyfryd o gymdeithasu.

Race to the King 2017

Llwyddodd Gethin Thomas, un o'n haelodau, i redeg y ras *Super Marathon* yma – 53 milltir – mewn tua 10 awr ddydd Sadwrn 24 Mehefin. Tipyn o gamp! Bu'n rhedeg er mwyn codi arian tuag at apêl Corwynt Cariad y capel. Llongyfarchiadau mawr i Gethin!

Adran Salem

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a chyffrous unwaith eto i Adran Salem. Yr uchafbwynt i'r holl weithgareddau eleni oedd y cyfle i berfformio yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 ddydd Sadwrn 24 Gorffennaf.

Cyn hynny, bu'r Parti Unsain a'r Ensemble Lleisiol, o dan arweiniad Caryl Ebenezer, a'r Parti Llefaru, o dan arweiniad Catrin Vaughan Evans a Chôr yr Adran, o dan arweiniad Bethan Webb, yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, a chyflwyno perfformiadau arbennig. A diolch yn fawr iawn i Catrin Llywelyn am gyfeilio i bawb!

Gethin cyn ei ras

Drwy gydol y flwyddyn, cafwyd llu o weithgareddau amrywiol bob wythnos yn ystod sesiynau arferol yr Adran, sy'n cwrdd bob nos Iau yng Nghapel Salem rhwng 6.00 a 7.00. Mae'r plant wrth eu bodd yn cael y cyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg a gwneud ffrindiau newydd o wahanol ysgolion cynradd Caerdydd. Diolch i Lowri Davies ac Elen Derrick am drefnu'r sesiynau eleni.

Os hoffech chi ... eich plant! ... ymuno yn yr hwyl, dewch draw i Gapel Salem ar nos Iau o fis Medi ymlaen. Mae'n wych!

Côr yr Adran yng Ngŵyl y Cyhoeddi

BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein llongyfarchiadau gwresog am gyflawniadau yn Eisteddfod Yr Urdd: Llinos gyda Manon yn gyntaf yn y deuawd canu; Llinos yn ail ar yr unawd canu; Elin yn gyntaf ar y monolog.

Roedd Mehefin 4ydd, Sul Y Pentecost, yn gyfle i ddwy gynulleidfa'r Ofalaeth ddod ynghyd dan arweiniad ein gweinidog. Seiliwyd y myfyrdod ar Actau 2, 1-13, gyda'r emynau 567, 576, 594, 574, 586 yn atgyfnerthiad buddiol.

Cafwyd oedfa i'w chofio ar Fehefin 11eg pan gyflwynwyd siec am £1,000 i Ambiwlans Awyr Cymru, ein helusen am eleni; roedd ein cefnogaeth eleni yn fynegiant penodol am waith yr Ambiwlans yn dwyn cymorth, creiddiol o amserol, i un o'n plith. Derbyniwyd y siec gan Catrin Hall, Cydlynydd Cymunedol yr elusen. Gweler y llun sy'n dangos y cwmni diddan.

Braf oedd deall bod ein hymdrechion wedi cyflwyno £573.51 i goffrau Cymorth Cristnogol. Ar yr un trywydd o gefnogi elusennau, dymunwn yn dda i Pat Davies sy'n mentro cerdded 10,000 cam bob dydd am fis i godi arian at apêl *Walking All Over Cancer* er cof am ei gŵr Graham. Bydd Pat yn cael cwmni Clare, merch Graham, ar y daith.

Roedd oedfa Mehefin 18 yn achlysur Ysgol Sul i Bawb, pan roddwyd sylw i ddigwyddiadau erchyll terfysgaeth ym Manceinion a llefydd eraill. Yn y trafod cododd ystyriaeth o ddulliau pontio rhwng Cristnogaeth ac Islamaeth, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'n siwr bydd y mater yn codi eto. A oes modd cael cymod a chyfaddawd?

Ar benwythnos olaf Mehefin cafwyd Gŵyl Flodau yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. Hyfrydwch oedd bod grŵp o Fethel wedi cyflwyno trefniant. Mil diolch i Helen, Rosemary a Kevin am eu llafur ymroddedig.

EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet

Estynnwn groeso i bawb i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos.

Gorffennaf 10 rhwng 19.00 a 20.30 bydd cyfarfod olaf **PIMS** cyn gwyliau'r haf.

Ddydd Mercher y 12fed am 12.00 a nos Sul yr 16eg am 19.30 bydd cyfle i gymdeithasu dros bryd o fwyd yn Koinonia**,** ond cofiwch bod angen archebu o flaen llaw.

Am 19.30 Gorffennaf 13 yn Eglwys Dewi Sant yng nghyfarfod Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd bydd Mr Gwynn Matthews yn siarad am 450 mlwyddiant cyhoeddi'r Llyfr Gweddi a'r Testament Newydd.

Thema adnodau'r oedolion, Gorffennaf 16, yw 'Ffyddlondeb', a chynhelir yr Oedfa Foreol, Ysgol Sul a'r Oedfa Hwyrol yn ôl ein harfer.

Nos Lun Gorffennaf 17 cawn y cyfle i fod yn greadigol yn y Festri yn Genesis.

Fore Gwener Gorffennaf 21 bydd croeso i'r plant lleiaf yn **Babimini** rhwng 9.45 a 11.15.

Ddydd Sul Gorffennaf 23 Y Parchedig Aled Davies (Chwilog) fydd yn arwain ein hoedfaon. Ni fydd Ysgol Sul.

Gorffennaf 30 cawn Oedfaon Aelodau - yn y bore yng ngofal aelodau Parc y Rhath, Llwynbedw a'r Mynydd Bychan, ac yn yr hwyr yng ngofal aelodau Cyncoed a Phenylan.

Ni fydd Ysgol Sul gydol mis Awst. Byddwn yn ymuno yn oedfaon Y Crwys (Awst 6), Y Tabernacl (Awst 13) ac Ebeneser **(**Awst 27).

Awst 20, 10.30 a 18.00, bydd yr oedfaon ym Minny Street dan arweiniad Y Bnr Dafydd Iwan. Bydd cyfle i gyfrannu nwyddau tuag at Fanc Bwyd Caerdydd yn ystod y dydd.

Aelodau newydd

Hyfrydwch fu cael croesawu yn aelodau ddau sydd wedi bod yn dod yn ffyddlon i'n hoedfaon ers symud i Gaerdydd: dymunwn bob bendith i Kerri a Catherine Evans (Y Mynydd Bychan) yn ein plith. Yn yr un oedfa, ar fore'r Sulgwyn, hyfrydwch ychwanegol oedd cael y fraint o groesawu un o ieuenctid yr Eglwys i gyflawn aelodaeth, sef Connor Evans.

Cydymdeimlo

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Linda Gregory (Y Mynydd Bychan) fu farw Mehefin 16. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu.

EGLWYS DEWI SANT

Coffi a chlonc. Roedd yn dda gweld cymaint wedi dod ynghyd ac yn mwynhau'r sgwrsio a'r gwmnïaeth. Cynhelir y bore coffi a chlonc nesaf dydd Sadwrn 15 Gorffennaf.

Mynd am dro. Aeth grŵp bach i gerdded dydd Gwener 16eg Mehefin ar y llwybrau uwchben Castell Coch. Bwriedir mynd am dro i Lanilltud Fawr dydd Gwener 21ain o Orffennaf.

Gwibdaith. Gobeithir trefnu gwibdaith ym mis Awst i Amgueddfa Caerfyrddin (gynt Llys Esgob). Dyma oedd cartref Esgob Richard Davies un o gyfieithwyr y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Testament Newydd i'r Gymraeg.

Gweler hefyd yr erthygl **Gŵyl Flodau Eglwys Dewi Sant** (tud. 24).

Catrin Hall, Cydlynydd Cymunedol Ambilans Awyr Cymru, yn derbyn siec Bethel, Penarth

EGLWYS Y CRWYS

Cyfarchion

Da deall fod Mrs. Adelina Evans yn dod ymlaen yn dda wedi cael penglin newydd. Mae Adelina yn fawr ei chymwynas i aelodau hŷn yr Eglwys a diolch iddi am ei gwaith amhrisiadwy tuag at gynllun y di-gartref dros y blynyddoedd. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu yn ôl i'n plith.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes i Siriol Burford ar gael ei hanrhydeddu'n gwbwl haeddianol â'r wobr 'merch ym myd addysg' mewn Seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm. Mae'r anrhydedd yn un o wobrau 'Chwarae Teg' sy'n rhoi clod i ferched yng Nghymru sydd wedi ysbrydoli pobl i fynnu cydraddoldeb o ran rhyw. Cafodd Siriol ei hanrhydeddu am y gwaith y mae'n ei gyflawni i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn addysg.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs. Janet Wheatley yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, John, yn yr Iseldiroedd. Rydym yn meddwl amdani yn ei cholled.

Y Gymdeithas

Cafwyd prynhawn llewyrchus yng ngardd Arthur a Diana Evans yn yr Eglwysnewydd pryd y cynhaliwyd Te Mefus. Roedd y tywydd yn braf a chefnogaeth dda. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gronfa'r Eglwys.

Y Grŵp Merched

Treuliodd aelodau'r Grŵp Merched brynhawn hyfryd yng Ngwinllan Llannerch yn Y Fro. Diolch i'r Parch Lona Roberts am y trefniadau.

Y Gymdeithas Ddrama

Cynhaliwyd oedfa arbennig ddechrau Gorffennaf gyda'r Gymdeithas Ddrama yn darllen detholiad o ddrama Norah Isaac 'Y Pererin' sy'n seiliedig ar fywyd William Williams, Pantycelyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Y Gymanfa Gyffredinol

Cynhaliodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru eu Cymanfa Gyffredinol yn Eglwys y Crwys ddechrau Gorffennaf. Traddodwyd Araith Ymadawol bwerus gan yr Athro John Gwynfor Jones fel Llywydd y Gymanfa. Diolch iddo am ei arweiniad doeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Trosglwyddwyd y Llywyddiaeth i'r Parch Brian Huw Jones, Prestatyn.

EGLWYS EBENESER

Bore Coffi NF

Ar fore Sadwrn 10fed o Fehefin cynhaliwyd bore coffi yng nghartref Roger a Lorenza Thomas er budd ein helusen am eleni, 'The Neuro Foundation'. Mae ei hwyres Tora yn dioddef o'r cyflwr Neurofibromatosis ac yn un o blant yr eglwys. Drwy ymdrech lew llwyddwyd i godi £501 tuag at yr elusen.

Gwibdaith

Cyfuniad o'r dwys a'r diddorol oedd gwibdaith Y Gymdeithas ar ddydd Sadwrn 24ain o Fehefin. Aethom i ardd goffa a mynwent Aberfan gan ein bod eleni yn cofio 50 mlynedd ers y trychineb. Profiad dwys oedd cydganu "Iesu annwyl ffrind plant bychain..." yno. Aethom wedyn i'r bwthyn ym Merthyr Tudful lle ganed y cerddor Joseph Parry. Daeth y daith i ben yng Ngwesty Neuadd Llechwen gyda te hufen danteithiol.

Gŵyl Flodau

Diolch i Elisabeth Williams a Beth Charles am baratoi arddangosfa o flodau oedd yn wledd i'r llygad ymysg yr arddangosfa wych welwyd yn Eglwys Dewi Sant ar benwythnos olaf mis Mehefin. (Gweler llun o'r trefniant ar dudalen 24.)

Ieuenctid ar grwydr

Mae nifer o ieuenctid yn crwydro yn ystod yr haf. Mae Cai Hayes eisoes yn gweithio yn Camp America, Nashville, Tennessee, Mae Carys Mair Jones yn mynd i Wittenberg i gynrychioli Undeb yr Annibynwyr mewn cynhadledd ac ym mis Awst bydd yn mynd i Gambodia gyda Tearfund. Yn Awst mae Elin Kate Harding yn cynrychioli'r Undeb mewn cynhadledd gan C.W.M. yn Ne Affrica ac y mae Gwilym Tudur yn mynd i gynhadledd Annibynwyr y Byd yn Ne Affrica ac ar ymgyrch efengylu yn Genefa ym mis Medi. Mae gweddïau a dymuniadau gorau'r eglwys yn mynd i'w canlyn ac edrychwn ymlaen at gael yr holl hanes pan ddeuant yn eu hôl.

EGLWYS Y TABERNACL

Cyflwyno

Yn ystod oedfa'n ddiweddar, cyflwynwyd dwy ferch Siwan ac Owen Sloman. Arweiniodd y Parch Peter Dewi Richards y rhan hon o'r gwasanaeth, yn dilyn addewid a wnaeth i'r teulu i'w cefnogi yn eu hymdrech i fabwysiadu. Gobeithiwn y bydd gan Keira Lowri ac Amelia Anwen ymwybyddiaeth o groeso a chefnogaeth y Tabernacl weddill eu hoes.

Llwyddiannau'r ifanc

Nodwyd eisoes lwyddiant Efa Rogers yn ei champ ym myd gymnasteg. Llwyddodd i wneud y dwbl ac ennill eleni fel y gwnaeth y llynedd, gan ddal gafael ar deitl Pencampwraig Cymru gyfan dan 12 oed. Gwych iawn eto.

Newid swydd

Dymunwn yn dda i Manon George ar dderbyn swydd newydd gyda Chynulliad Cymru. Bydd yn gadael ei swydd ym Mhrifysgol Caerdydd ar ddiwedd y tymor academaidd presennol ac yn ymuno gyda'r tîm a fydd yn cynnig arweiniad i'r Cynulliad yng nghyd-destun trafodaethau Brexit.

Oedfaon ardal

Diolch i gyfeillion ardaloedd Llandaf, y Tyllgoed a Radur am drefnu oedfa fore Sul fis Mai'r 28ain ac i ardaloedd Penylan, Llanedeyrn, Pontprennau a Chyncoed am yr un gymwynas yn oedfa'r hwyr. Cafwyd arweiniad gwerthfawr ganddynt, gan ymestyn nifer yr aelodau sy'n magu profiad o gymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno oedfa fel hyn.

Cyngerdd *Elfen*

Tasech chi wedi bod yn cerdded yn yr Ais nos Fercher Mai'r 24ain, mae'n ddigon tebyg y byddech chi wedi clywed seiniau cerddorol cyffrous, hudolus yn dod o gyfeiriad y capel. Y rheswm am hyn oedd bod y grŵp *Elfen* yn perfformio, a phob un yn y gynulleidfa yn ei elfen. Triawd cyffrous yw *Elfen* gyda Stacey Blythe ar yr acordian, y ffidilwraig Helina Rees a Jordan Price yn chwarae'r bâs dwbl.

Gwaith ar yr adeilad

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n wrth drwsio'r to ar y capel a'r festri.

BETHEL, RHIWBEINA

Ar Fehefin 13 aeth nifer o'r aelodau am dro i Fae Caerdydd gan fwynhau pryd o fwyd yn y Côte Brasserie fel diweddglo i weithgareddau'r tymor .

Mae'r aelodau yn ffyddlon iawn yn cyfrannu i'r Banc Bwyd o Sul i Sul ac mae'r capel yn ddiolchgar iawn am y rhoddion.

Roedd yn braf croesawu Mair Owen yn ôl atom wedi cyfnod hir o fethu mynychu'r gwasanaethau.

Yn ôl yr arfer ni chynhelir oedfaon yn y capel yn ystod mis Awst ond bydd y gwasanaethau yn ail-gychwyn ar ddydd Sul, Medi 3 a bydd y Gymdeithas yn ail-ddechrau ar fore Mawrth, Medi 12 .

Ysgol Pencae

Llwyddiant Eisteddfod

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Pen- y-bont ar Ogwr ac Elái. Roeddem yn falch iawn o ymdrechion y disgyblion i gyd. Llongyfarchiadau arbennig i'r unigolion canlynol - Lleu Gravelle (1af: Rhyddiaith Blwyddyn 3 a 4), Elen Morse-Gale (2il: Rhyddiaith Blwyddyn 3 a 4), Indeg Daniel (2il: Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6) a Ffred Hayes (3ydd: Unawd Taro gyda'r Xylophone). Bu'r ysgol yn cystadlu am y tro cyntaf yn y gystadleuaeth Cyflwyniad Dramatig a llwyddodd y perfformiad egnïol i gipio'r wobr gyntaf! Bu llawer o ddathlu yn ystod yr wythnos!

Ymweliadau

Bu'r Cyngor Eco (Lara, Iren, Joseff, Cadi, Gwydion a Lewys) yn brysur yn dysgu yng ngweithdai Un Blaned a'r JRSO (Erin, Rhydian, Liwsi-Jo a Huw) yn cyflwyno eu gwaith gydol y flwyddyn mewn seremoni gydag ysgolion eraill Caerdydd.

Côr Plant Affrica

Braint a phrofiad arbennig i'r côr oedd perfformio gyda Chôr Plant Affrica yn Neuadd Dewi Sant. Braf oedd clywed y disgyblion yn canu yn Affricanaidd a chôr plant Affrica yn ymuno gyda Phencae i ganu'r gân, *Un Ydym Ni* yn Gymraeg.

Campau Chwaraeon

Llongyfarchiadau gwresog i'r timoedd tenis a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Tenis Cymru. Enillodd Gwen, Rheanna, Elian a Guto (blwyddyn 5), yn ogystal ag Eben, Iolo, Iris a Menna (blwyddyn 6) y gystadleuaeth i dimoedd cymysg a dod yn bencampwyr de Cymru! Cawsom brynhawn llawn cyffro wrth i Teilo, Illtud, Dewi a Cybi frwydro er mwyn cipio teitl enillwyr y mabolgampau! Roedd bwrlwm cystadleuol yn llenwi y Stadiwm Athletau.

Ffarwelio

Dymunwn yn dda i Miss Leah Roberts, Mrs Eleri Jones a Mr Elis Bedwyr fydd yn ein gadael ddiwedd y tymor. Diolch i chi am eich cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol eleni. Byddwn hefyd yn ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6 a fydd yn dechrau eu pennod newydd yn yr ysgol uwchradd. Mwynhewch bob munud yng Nglantaf, Plasmawr a Bro Edern a chofiwch – Ymdrech a Lwydda!

HUW ROBERTS CYFRIFYDD

Ymarferydd Profiant Awdurdodedig

Gwasanaeth personol, proffesiynol a dibynadwy

Profiant (Probate)

Treth Etifeddiaeth

Treth Eiddo

Cynllunio ar gyfer ewyllys

Gwasanaeth Ymweliad Cartref ar gael

029 2069 4524 07967 976854

huwrobertsaccountant@googlemail.com

www.huwrobertsaccountant.cymru

Sefydlwyd 1987

Ysgol Bro Edern

Diwrnod Bywyd Iachus

Mwynheuais y dydd yn fawr iawn gan fy mod yn hoff iawn o chwaraeon a chadw'n iach. Er bod siocled, cacennau a phob math o fwydydd fel yma yn blasu'n arbennig rydym yn gwybod nad ydyn nhw yn dda iawn i ni. Dangosodd y diwrnod yma fod dal lle i fwydydd fel yma yn y corff os ydym yn ofalus a dim ond yn eu bwyta yn anaml. Roedd y dydd hefyd yn dangos bod bwyta gormod o sothach yn gallu arwain at bethau drwg. Yn ystod y dydd yma gwnaethom lawer o weithgareddau gwahanol oedd yn ymwneud â chadw'n iachus.

Roedd pawb yn yr ysgol wedi cymryd rhan yn y dydd yma, er bod y tywydd yn oer, gwlyb a gwyntog. Cymerodd blwyddyn 8, 9 a 10 eu tro i redeg Parc y Rhath – a nifer o'r staff hefyd. Roedd yr athrawon yn disgwyl i bawb yn y flwyddyn redeg o leiaf un lap o'r parc. Mae un lap yn hafal i 2.1km. Roedd rhan fwyaf wedi gwneud dau lap, a rhai ohonon ni wedi rhedeg tri lap gan ein bod mor awyddus. Roedd nifer o bobl wedi blino erbyn y diwedd!

Ar ôl cerdded yn ôl i'r ysgol a twymo lan eto, fe gaethon ni ddysgu am bynciau gwahanol – fel effaith ysmygu ar rannau gwahanol o'r corff, a'r effeithiau negatif a phositif sy'n dod wrth yfed alcohol.

Yn bersonol, mwynheuais y dydd yn fawr iawn a rydw i nawr yn trio fy ngorau glas i gadw'n heini ac i fwyta pethau iachus. Fy hoff ran o'r dydd oedd rhedeg tri lap o Barc y Rhath yn y glaw a'r gwynt gyda fy ffrindiau. Y rheswm mwynheuais hyn gymaint oedd oherwydd os oedd un o fy ffrindiau yn blino, roedd y bechgyn i gyd yn ei helpu ac yn arafu i'w ysbrydoli i orffen. Yn fy marn i, roedd y diwrnod ABCh yma yn well nag unrhyw ddiwrnod ABCh sydd wedi bod y flwyddyn hon hyd yma.

Tomos Francis - Blwyddyn 8

Rhai o'r 300 o ddisgyblion a staff redodd rownd Llyn y Rhath - a neb yn cwyno

Ysgol Pen-y-Groes

Llwyddiant Cenedlaethol yn y Cwis Llyfrau

Dyma'r tro cyntaf erioed i'r ysgol gystadlu felly llongyfarchiadau mawr i griw Blwyddyn 4 am lwyddo i ddod yn drydydd yn y rownd genedlaethol yn Aberystywth! (Gweler y golofn Byd Llyfrau ar dud. 9 .)

Y Ddrysfa Ddyrys

Roedd dirgelwch enfawr yn yr ysgol ar fore Dydd Mercher y 28fed o Fehefin pan drawsnewidiwyd neuadd a iard yr ysgol i fod yn ddrysfa ddyrys. Gwahoddwyd disgyblion o Ysgol Bro Edern, Ysol Pen y Pil, Ysgol Glan Morfa ac Ysgol Bro Eirwg i ymuno gyda ni yn Ysgol Pen-y-Groes i ddatrys problemau ymchwiliol dyrys, i fedwl yn greadigol ac i ymgymryd â her y ddrysfa ddyrys. Diolch i bawb am eu cwmni ac am gydweithio mor wych.

Hwyl Fawr Miss Devonald

Gyda chalon drom fe wnaethom ffarwelio gyda Miss Devonald ychydig o wythnosau yn ôl. Miss Devonald oedd athrawes gyntaf Ysgol Pen-y-Groes ac mae wedi bod yn aelod blaenllaw a brwdfrydig o'n hysgol ers y cychwyn cyntaf. Ond mae bellach yn ymgymryd â sialens newydd ac yn mynd i weithio i Fenter Casnewydd. Dymunwn bob hwyl iddii hi yn ei swydd newydd a byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.

Diolch am ddarllen ein colofn. Rydym ni, Gohebwyr cyntaf y Groes, yn gadael yr ysgol ymhen pythefnos ac yn cychwyn ym Mro Edern yn mis Medi. Diolch yn fawr am ddarllen ein colofnau dros y flwyddyn, rydym wedi bod wrth ein bodd yn casglu helyntion am ein hysgol a bydd gohebwyr newydd yn cychwyn ar y gwaith ym mis Medi.

Hwyl am y tro,

Daniel, Melanie a Samuel.

Hollti – drama newydd, bwerus

Yn Eisteddfod Genedlaethol Môn, bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno *Hollti* gan Manon Wyn Williams – drama sy'n seiliedig ar y cynlluniau i adeiladu atomfa newydd ar Ynys Môn. Mae *Hollti* yn archwilio pryderon a gobeithion rhai o bobl yr ynys, gan gynnwys cymdogion agosaf safle arfaethedig Wylfa Newydd, sef teulu fferm Caerdegog, ger Cemaes.

Llwyfennir *Hollti* yn Theatr Bro Alaw, Ysgol Uwchradd Bodedern, nos Fawrth 8 Awst – nos Wener,11 Awst (8.00 yh).

Os na chewch gyfle i'w gweld yn yr Eisteddfod, cewch gyfle arall yn yr **ATRiuM, Prifysgol De Cymru,** ar y 19 a'r 20 o Hydref.

Ysgol Plasmawr

National Young Writers' Awards 2017

Rydym yn falch iawn o Molly McVeigh yn yr adran Saesneg eleni, gan iddi gael ei dewis i restr fer y gystadleuaeth uchod allan o 1,000 o blant – yr unig ymgeisydd o Gymru ymysg 100 o blant ar y rhestr fer.

Synopsis o'r stori gan Molly

Stori yw hon am ddiwrnod ysgol arferol ym mywyd merch o'r enw Tana o'r flwyddyn 3017. Mae'n cyflwyno pobl i fyd gwahanol, lle mae ffyrdd o wrando ar gerddoriaeth yn wahanol; lle y gallwch gymryd tabledi i'ch helpu i adolygu; lle mae ceir yn hedfan ac yn amhosib eu chwalu. Mae ardal arbennig yn y ddinas lle mae pobl yn dal i ddefnyddio teclynnau o'r 20fed a'r 21ain ganrif, er mawr syndod i drigolion 3017. Cefais fy ysbrydoli wrth gofio nôl am rai teclynnau o fy mhlentyndod a oedd unwaith yn chwyldroadol, a'u datblygiad ers hynny. Pwy a ŵyr felly beth fydd i ddod ymhen mil o flynyddoedd?

Diwrnod Mabolgampau 2017

Rydym ni fel capteiniaid Llys Taf yn falch iawn i gyhoeddi mai ni oedd fuddugol yn y Mabolgampau eleni, yn ogystal â'r Eisteddfod. Roedd awyrgylch hwylus yn Stadiwm Lecwydd trwy gydol y dydd a braint oedd bod yn arweinydd ar lys mor llwyddiannus yn y maes celfyddydol a'r maes chwaraeon ym Mhlasmawr. Pleser oedd cael ein henwebu i arwain llys, ond gyda'r llwyddiannau di-ri ar sail ymdrech arwrol aelodau Llys Taf, mae'n gwneud ein swydd ni fel arweinwyr yn werth chweil. Gan ein bod ni'n cystadlu o fewn llysoedd newydd eleni, rydyn ni wedi gweld agwedd fwy cystadleuol na'r arfer ymysg y disgyblion, ac felly roedd dod i'r brig mewn dau ddigwyddiad ysgol-gyfan yn arbennig. Daeth Llys Rhymni yn ail ar y dydd gydag Elai yn drydydd, ond Taf ddaeth i'r brig a chipio copa'r podiwm. Gobeithiwn y bydd y llwyddiant yn parhau.

Emily Pemberton

Pencampwyr Mabolgampau Ysgol Plasmawr 2017 (o'r chwith i'r dde): Morgan Hill (Bl 8), Molli Watts (8), Elin John (8), Max Davies (7), Lowri Keyse (7), Capteiniaid Llys Elai Gruff Daniels ac Elen Evans (12), Capteiniaid Llys Taf – Emily Pemberton a Gareth Scourfield (12), Capteiniaid Llys Rhymni – Rhys Morris a Elin Glaves (12), Joe Alexander (9), Caitlin Boyle (9), Eli Scoble (10), Rhianna Satterley (10), Ieuan Jones (12), Carys Osbourne (12)

Ysgol y Wern

Pêl Droed Caerdydd a'r Fro

Llongyfarchiadau i Owain Gruffydd Bl.5 a Thomas Pricket Bl.3 ar gael eu dewis ar gyfer timau pêl droed ysgolion Caerdydd a'r Fro. Llongyfarchiadau hefyd i Finley Evans Bl.3, Finley Knowles Bl.4, Wil Evans Bl.5 a Thomas Payne Bl.5 ar gael eu dewis i'r timau datblygu.

Côr yr Ysgol

Bu'r côr yn perfformio mewn cyngerdd yn Rhiwbeina i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mwynhawyd yr achlysur yn fawr, yn enwedig wrth ymuno gyda Chôr Caerdydd i ganu un o ganeuon y diweddar Ryan Davies.

Wythnos Rhedeg

Cafwyd wythnos arbennig yn rhedeg milltir y dydd i godi arian ar gyfer prynu adnoddau ar gyfer amser cinio/chwarae. Uchafbwynt yr wythnos oedd croesawu rhieni ar ddiwedd yr wythnos i redeg milltir gyda'u plant.

Ysgol Glantaf

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a fu'n llwyddiannus ar lwyfan yr Urdd eleni. Gwelwyd nifer o ddisgyblion yn cipio sawl gwobr.

Seremoni'r Cyhoeddi

Braf oedd gweld disgyblion yr ysgol yn rhan o seremoni gyhoeddi Eisteddfod genedlaethol Caerdydd ar ddydd Sadwrn y 24ain o Fehefin.

Chwaraewraig y Tymor

Llongyfarchiadau gwresog i Manon Johnes (bl.11) ar gael ei henwi'n chwaraewraig y tymor yng ngharfan merched dan 19eg y Gleision. Teitl haeddiannol iawn.

Noson wobrwyo Ysgolion Caerdydd

Llongyfarchiadau gwresog i'n timoedd rygbi ar eu llwyddiant ysgubol yn ddiweddar. Coronwyd bechgyn blwyddyn 7,8, 9 ac 11 yn bencampwyr Ysgolion Caerdydd a blynyddoedd 10 ac 11 yn bencampwyr y 7 bob ochr. Yn ogystal, llwyddodd blynyddoedd 9 a 11 ennill cwpan Ysgolion Caerdydd. Roedd Noson wobrwyo Ysgolion Caerdydd yn gyfle gwych i gydnabod a dathlu llwyddiannau'r bechgyn. Rydym yn falch iawn ohonyn nhw!

Mabolgampau

Cafwyd diwrnod gwych o gystadlu ym mharc Lecwydd ar gyfer y mabolgampau eleni. Pleser oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu ym mhob camp!!

Dewi enillodd y Mabolgampau. Llongyfarchiadau i bawb yn enwedig y rhai a dorrodd record.

Arddangosfa o waith gwych y disgyblion

Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 11,12 a 13 wedi derbyn y cyfle i arddangos eu gwaith Dylunio a Thechnoleg ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd dros yr wythnosau nesaf. Roedd nifer fawr o ysgolion Cymru wedi cael gwahoddiad i ddod â gwaith i gampws Llandaf y brifysgol ac fe ddaeth gwaith Dylunio, Technoleg a Chelf o 17 ysgol wahanol i greu' r arddangosfa.

Y disgyblion o Lantaf oedd Beca Jones 12, Adam King 12, Tesni Rowlands 12, Tatum Mulford 13, Ella Boyle 11. Mae'r holl brosiectau'n werth eu gweld ac yn cael eu canmol yn fawr iawn gan brifathrawon yr adran TAR a'r adran Gelf a Dylunio.

Ysgol Nant Caerau

Cyngor Ysgol

Eleni mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur iawn yn trafod syniadau ac yn codi arian er lles yr ysgol. Yn annibynnol, trefnon nhw ambell ddisgo gan gynhyrchu posteri a gwerthu tocynnau. Cynhaliwyd ambell ddiwrnod gwisg anffurfiol a gwerthu cacennau ar ôl ysgol. Ond sut i wario'r arian oedd y testun trafod nesaf!

Gan fod disgyblion yr ysgol wrth eu bodd yn astudio gwaith yr arlunydd Rhiannon Roberts penderfynon nhw ei chomisiynu i greu murlun parhaol yng nghyntedd yr ysgol. Daeth Rhiannon atom am ddiwrnod cyfan i greu'r murlun gan ddefynddio syniadau'r plant. Mae'r murlun yn ffantastig ac yn dilyn arddull liwgar ac unigryw yr arlunydd i arddangos nodweddion amlwg ein prifddinas. Gwelwn Ganolfan y Mileniwm, Stadiwm y Mileniwn a nifer o briodweddau adnabyddus eraill. Mae hefyd yn cynnwys manylion o'n hardal leol megis pont liwgar Trelái a'r bryngaerau Oes Haearn Caerau. Ond wrth sbecian yn fwy gofalus gwelwn y morlo Billy ym Mharc Buddug a hyd yn oed Gareth Bale yn cuddio tu ôl i goeden!! Gwaith campus!! Diolch yn fawr Rhiannon am eich gwaith godidog ac i'r Cyngor Ysgol am eich syniadau. Gweler y murlun ar dud. 23.

Wrth sôn am arlunwyr Cymreig cyfoes bu'r plant yn ail-gynhyrchu gwaith hyfryd Emma Sian Pritchard yn ystod ein Hwythnos Newidiadau. Am declyn da ydy Trydar! Trwy Trydar daeth Emma i glywed am waith y disgyblion gan ddanfon neges caredig iddynt yn canmol eu gwaith hyfryd.

Yn ystod ein Hwythnos Newidiadau bu'r plant yn cadw'n heini drwy redeg milltir bob dydd hefyd. Roedd plant bach blinedig erbyn y dydd Gwener! Derbyniodd disgyblion bl.2 a 6 weithdy ar thema Addysg Bersonol a Chymdeithasol trwy'r asiantaeth Spectrwm. Diolch Catrin am y gwersi hynod o bwysig.

Cyfryngau

Cadwch lygaid am ddisgyblion Nant Caerau ar S4C yn fuan. Bu disgyblion blwyddyn 3 yn fflimio ar gyfer y rhaglen *Ahoi!* a bu blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu ar y rhaglen *Pigo dy drwyn.*

Seremoni cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol

Ar ddydd Sadwrn, y 24ain o Fehefin, aeth rhai o'n disgyblion i orymdeithio drwy'r ddinas fel rhan o seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Yn ein cynrhychioli oedd Seren, Madison ac Eva. Diolch yn fawr Miss Le Bon a Mrs Nash am eu hybrwng trwy'r ddinas.

Targed Trelái a Chaerau ydy £10,000 felly cawsom ddiwrnod gwisgo coch, gwyn a gwyrdd er mwyn helpu'r ymgyrch. Diolch am bob cefnogaeth.

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i'r llu o blant a phobl ifanc yr ardal a enillodd glod yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhencoed eleni. Pe bai lle yn caniatáu byddem yn hoffi eu henwi i gyd – ond byddai angen dwy dudalen gyfan!! Dyna fesur y llwyddiant. Ardderchog!

Gallwch gael canlyniadau llawn Caerdydd a'r Fro trwy fynd i wefan *Y Dinesydd*: www.dinesydd.cymru

I chwe chystadleuydd, beth bynnag, bydd y cystadlu'n parhau, gan iddynt gael eu dewis i ymgeisio am Ysgoloriaeth Bryn Terfel ym mis Hydref. Yn eu plith mae Daniel Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr, a Harry Lovell Jones, Aelwyd Llundain, ond un o bobl ifanc Caerdydd, wrth gwrs. Pob lwc i'r ddau.

Daniel Jones, Plasmawr

NABOD EIN POBOL

Falmai Griffiths yn holi Dylan Roberts

Dylan Roberts yw perchennog caffe deli Ffandango yn Llandaf

Ydych chi'n dod yn wreiddiol o Gaerdydd?

Nac ydw, ces i fy ngeni yn Nhreffynon a fy nghodi yn Llangernyw, pentre bach yn agos i Lanrwst.

Ble cawsoch eich addysg?

Es i i Ysgol Gynradd Llangernyw ac yna i Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy yn Llanrwst. Yn 1999 des i i Gaerdydd i'r Brifysgol i astudio Peirianneg Mecanyddol. Ar ôl graddio penderfynais brynu tŷ yn Y Rhath a'i atgyweirio fy hunan ac yna ei werthu. Yna prynais dŷ yn Abercynon ac atgyweirio hwnnw hefyd a, rhaid cyfadde, roedd e'n waith caled iawn. Gwerthais hwnnw a phrynu tŷ yng Nghilfynydd. Ar ôl yr holl waith caled roedd fy nghorff yn flinedig felly penderfynais gael newid llwyr a mynd i deithio'r byd.

Pa wledydd ymweloch chi â nhw?

Bues yn India, Kenya, Thailand, Singapore, America, Awstralia a Seland Newydd. Roeddwn yn aros mewn hosteli er mwyn cyfarfod teithwyr eraill a dysgu o'u profiadau. Yna nôl i Gilfynydd i orffen y gwaith ar y tŷ! Yn y man dechreuais atgyweirio tai pobl eraill a chael digon o waith.

Oeddech chi'n hysbysebu eich busnes?

Nac oeddwn, roedd fy ngwaith yn cael ei gymeradwyo gan fy nghwsmeriaid. O ganlyniad i hynny roeddwn yn gweithio ar dŷ yn ardal Insole yma yn Llandaf, ble cwrddais fy nghymar oedd yn byw drws nesaf ond un! Nawr mae Joanne a finna yn byw yn hapus gyda Tedi a Lewis, ein meibion bach.

Ydych chi'n dal i atgyweirio tai?

Nac ydw, roedd fy nghorff wedi blino'n lân ar ôl yr holl waith corfforol, ac un diwrnod pan oeddwn yn siopa yn y Stryd Fawr yn Llandaf gwelais fwlch yn y farchnad am nad oedd yr un siop yn gwerthu ffrwythau a llysiau. Roedd rhaid mynd naill ai i Bontcanna neu i'r Eglwys Newydd am y fath nwyddau. Gwelais fod adeilad gwag ar y Stryd Fawr yma a mentrais agor siop deli yn gwerthu nwyddau Cymraeg ac erbyn hyn mae'r busnes wedi datblygu i fod yn fwyty hefyd. Mae hyd yn oed y coffi wedi ei brosesu yn Rhydaman!

Ai chi sy'n coginio yn y bwyty?

Nage, des i ar draws Catrin, sy'n gogydd, oedd wedi agor busnes 'Bara Menyn' yn Stryd Womanby ac roedd hi'n awyddus i ymestyn ac fe ddaethon ni i benderfyniad i ddatblygu y busnes yma ar y cyd gan fod y peiriannau yn y gegin yma yn barod. Hi felly sy yn y gegin yn gwneud yr holl waith coginio.

Pam y galwoch chi'r bwyty yn Ffandango?

Dw i'n mwynhau cerddoriaeth y band Queen ac yn enwedig y gân *Bohemian Rhapsody* ac mae'r gair *ffandango* yn cael lle amlwg ynddi. Sylwch ein bod wedi ei sillafu gyda Ff er mwyn ei Gymreigeiddio! Mae'r bwyty yn mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn mae yn agored ar y trydydd nos lau bob mis yn cynnal nosweithiau comedi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth gwrs gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r brifddinas flwyddyn nesa mae nosweithiau codi arian yma o bryd i'w gilydd.

Ydych chi'n debygol o fynd i deithio eto?

Ydw, ond gyda'r teulu y tro yma. Hoffwn i'r plant gael yr un profiadau a ges i yn India ac yn Kenya, lle cwrddais â phobl oedd yn affwysol o dlawd ac eto yn llawen ac yn fodlon eu byd. Teimlaf ei bod yn bwysig iddyn nhw ddysgu taw nid arian o angenrheidrwydd sy'n dod ag hapusrwydd bob amser.

Oes amser gyda chi i gael diddordebau?

Oes. Dw i'n hoff iawn o rygbi a bues yn gapten tîm yr ysgol ac hefyd chwaraeais i Dîm Ysgolion Gogledd Cymru. Dw i ddim yn chwarae mwyach oherwydd anafiadau ond yn dal i ddilyn y gêm. Dw i'n hoffi darllen a gwrando ar gerddoriaeth Queen a'r Beatles, ac wedi mynychu Clwb y Cavern yn Lerpwl droeon.

O holl wledydd y byd, ble mae eich hoff le?

Yr hen Barc yr Arfau yma yng Nghaerdydd! Ro'n i'n arfer dod yma pan yn blentyn i weld gemau rhyngwladol a chwympais mewn cariad â'r lle! Dyna'r rheswm pam y des i i'r Brifysgol yma yng Nghaerdydd. Ac rydw i yma o hyd!

CANT A MIL VINTAGE
www.cantamilvintage.com
Llyfrau a chardiau Cymraeg, anrhegion a thrysorau vintage.
100 Whitchurch Rd
Mynydd Bychan, CF14 3LY
02920 212474
jo@cantamilvintage.com

CERDYN POST O LISBON

Lowri Haf Cooke yn holi Ceri Lloyd

Mae Ceri Lloyd yn byw ac yn hamddena yn Lisbon, wedi gyrfa fel athrawes yng Nghaerdydd. Mae hi'n byw yno gydag Elgan, ei gŵr, ac maent yn rhieni i Lydia a Steffan, sy'n oedolion ifainc.

Un o ble ydych chi'n wreiddiol?

Dwi'n dod o Riwbeina'n wreiddiol. Mae gen i atgofion hapus o fy mhlentyndod cynnar yno. Roedd tŷ Nain a Taid o fewn tafliad carreg i'n tŷ ni ac fe dreuliais gryn dipyn o amser yn eu cwmni tra o'n i'n fach. Es i i Ysgol Feithrin Rhiwbeina wedyn i Ysgol Heol Llanisien Fach, lle roedd yno Uned Gymraeg, cyn y bu'n rhaid i ni symud i adeilad Firiamu Jones yn Gabalfa. Es i wedyn i Ysgol Gyfun Rhydfelen ym Mhontypridd.

Beth wnaeth i chi ymgartrefu ym Mhortiwgal?

Symudais i i Lisboa ar ddiwedd haf 2016, er mwyn ymuno â fy ngŵr, Elgan, sydd wedi bod yn byw a gweithio yma ers dros wyth mlynedd gyda'r asiantaeth EMSA (European Maritime Safety Agency). Pan gafodd Elgan y swydd, roedd ein plant, efeilliaid Lydia a Steffan, ar fin sefyll eu haroliadau TGAU ac roeddwn i'n dysgu yn Ysgol Pwll Coch yng Nghaerdydd, felly arhosais i yno gyda nhw, gan gario mlaen i weithio, a bu'r pedwar ohonom yn teithio nôl a mlaen rhwng Caerdydd a Phortiwgal yn ystod gwyliau ysgol. A dyna fel y bu tan i'r plant orffen yn y brifysgol ac wedyn hedfan y nyth. Ar ôl hynny fe benderfynodd Elgan a finnau ei bod hi'n hen bryd i'r ddau ohonom fyw yn yr un wlad!

Ry'n ni'n byw mewn pentref o'r enw Monte Estoril, sydd tua hanner awr o daith allan o Lisboa, wrth ddilyn afon Tagus i'r gorllewin i gyfeiriad Cascais. Mae Estoril gerllaw, ac yno, yng ngwesty'r Palacio, fe arhosodd Ian Fleming yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu'n byw ymhlith ysbïwyr oedd yno oherwydd fod Portiwgal yn hafan ddiogel, ac mewn lleoliad mor fanteisiol yn ddaearyddol. Honnir mai yma yr ysbrydolwyd e i ysgrifennu ei nofel James Bond gyntaf, Casino Royale.

Pa lefydd yn Lisbon y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas o'r ddinas honno?

Mae cymaint o amrywiaeth o bethau i wneud a'u gweld yma, amgueddfeydd, orielau, parciau, llefydd ardderchog i fwyta, siopau ag ati. Baswn i'n argymell i unrhywun sy'n ymweld â Lisboa i grwydro'r ddinas ar droed, gan osgoi teithio ar y tramiau tra bo'r llongau twristiaid enfawr wedi eu angori yn y doc. Yn ystod yr adegau yma, mae'r strydoedd yng nghanol y ddinas yn hynod o brysur a'r lladron yn heidio at y tramiau sy'n cario llawer gormod o bobol ar y tro.

Tra'n sôn am ladron, rydan ni'n mwynhau mynd i Feira da Ladra (Marchnad y Lladron) *[Sylwer ar y tebygrwydd i'r Gymraeg.Gol.]* yn Campo do Santa Clara yn ardal yr Alfama ar foreau Sadwrn. Fe welwch chi bob math o bethau yno, hen a newydd. Amgueddfa a fwynheais i'n fawr oedd amgueddfa Calouste Gulbenkian. Roedd Gulbenkian ddyn busnes o dras Armeniaidd, oedd yn enedigol o Dwrci, a chyn iddo farw ym 1956 fe ddaeth yn un o'r dynion cyfoethocaf yn y byd. Roedd yn byw yn Lisboa erbyn hynny ac wedi hel casgliad helaeth o gelf o led led y byd. Mae'r casgliad yn cynnwys, ymhlith llwyth o bethau eraill, ddarluniau hyfryd, carpedi gwerthfawr o'r Dwyrain a stafell yn llawn campweithiau gan Lalique.

Mae'n rhaid hefyd ymweld ag Eglwys São Vicente de Fora er mwyn gweld y teils bendigedig sydd yno.

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gymru a Chaerdydd?

Er mod i'n mwynhau byw yn yr haul, rhaid dweud mod i'n colli cwmni fy nheulu a ffrindiau. Wedi dweud hynny, mae llawer ohonynt wedi bod allan yma yn mwynhau'r haul gyda ni! Dwi hefyd yn colli cerdded a seiclo drwy'r parciau yng nghanol Nghaerdydd - dyna un o fy hoff bethau a dyna fydd un o'r pethau cyntaf fydda i'n neud ar ôl dychwelyd adref.

Pa dri lle yng Nghaerdydd y byddech chi'n annog unrhywun o Lisbon i ymweld â nhw i gael blas go dda o'r brifddinas?

Baswn i'n argymell i ymwelydd grwydro'r parciau gwych sy gennym, yn enwedig Parc Bute y tu ôl i'r castell – mae cymaint i weld yma a sawl lle i gael paned tra'n gwylio'r byd a'i wraig allan yn mwynhau.

Taith ar hyd yr afon lawr i'r Bae i weld bo gan Gaerdydd gysylltiad â'r môr hefyd. Er gwybodaeth, i ymwelwyr o Bortiwgal, bu glo o Gymru yn cael ei fewnforio a'i ddefnyddio i helpu cynnal y pwerdy trydan yn Lisboa hyd at yr Ail Ryfel Byd.

Ar ddiwrnod gwlyb, ymweliad â'r oriel yn yr Amgueddfa Genedlaethol i weld ein cyfoeth o ddarluniau hyfryd, neu daith fach ar y bws allan i Amgueddfa Werin Sain Ffagan i roi syniad ac ymdeimlad i'r ymwelydd o hanes Cymru a'r Cymry.

Y DIGWYDDIADUR

Gorffennaf

Gwener, 14 Gorffennaf
Pwyllgor Apêl Parc Fictoria a Phontcanna, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Taith hanesyddol yn ymweld â rhai o dafarndai ardal Treganna yng nghwmni Dr Dylan Foster Evans.

Sadwrn, 15 Gorffennaf
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, rhwng 10.30 a 12.00. Dewch i fwynhau paned a sgwrs mewn awyrgylch anffurfiol.

Sadwrn, 15 Gorffennaf
Cerddoriaeth yn y Tabernacl ar yr Ais. Datganiad Organ gan Jeffrey Howard am 12.30pm. Mynediad am ddim; casgliad tawel.

Gwener, 28 Gorffennaf
Cyngerdd a drefnir gan Lynwen Haf Roberts, Treganna, i godi arian i'r elusen *Alzheimers Society*. 7:30yh yn Eglwys St. John's, Treganna. Dyma un o'r llu o weithgareddau y mae'n eu trefnu i gyrraedd y nod o £3,000 – yn cynnwys cerdded ar hyd Mur Mawr Tseina yn yr Hydref. Mwy am hynny y tro nesa!
[*www.justgiving.com/fundraising/Lynwen-Haf-Roberts*]

I anfon gwybodaeth
i'r Digwyddiadur
gweler y manylion ar dud. 3

Medi

Gwener, 1 Medi
Pwyllgor Apêl Rhiwbina a Llanisien, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Cyngerdd gan y Teulu Lovell-Jones, yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 7.00pm. Tocynnau: £10 (cyngerdd yn unig) neu £15 (cyngerdd a lluniaeth ysgafn gyda'r teulu yn y Ganolfan i ddilyn). Ar gael trwy ebostio apel_rhall@outlook.com

Mercher, 6 Medi
Merched y Wawr, Bro Radur. Noson agoriadol y tymor newydd. Bydd Sian Lewis (Menter Caerdydd) yn sôn am waith y Fenter ac yn agor cil y drws ar y gweithgareddau sydd wedi'u trefnu dros y gaeaf. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Merched y Wawr Caerdydd

Merched a'r Gymraeg yng Nghaerdydd rhwng 1840 a 1920 oedd testun y Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd ar 13 Mehefin. Chwalodd unwaith ac am byth, gobeithio, y chwedl gyfeiliornus mai'r mewnfudwyr mwyaf diweddar sydd wedi Cymreigio'r ddinas hon. Cyflwynodd i ni ferched bywiog, llawn rhialtwch, a fyddai'n cwrdd mewn tafarn dan nawdd Cymdeithas Gyfeillgar yr Iforiaid, a hynny mor bell yn ôl â 1842. Cawsom ganddo sawl enghraifft o achosion llys, rhai mân a rhai mor ddifrifol â llofruddiaeth lle'r oedd merched o Gymry yn y doc a thystiolaeth yn cael ei rhoi yn y Gymraeg.

Cyfeiriodd Dylan at ymchwil Owen John Thomas sy'n dangos bod achosion llys yn ffynhonnell ardderchog o wybodaeth ar y defnydd o iaith a thafodiaith y Cymry yn y cyfnod hwnnw. Yn wir, fe glywyd bod mewnfudwyr o Sbaen a gwlad Groeg a oedd yn byw yn ardaloedd y porthladd yn siarad Cymraeg yn haws na Saesneg. Cymeriad a hanner oedd y Gymraes rymus a gadwai'r Dinas Arms yn Charlotte Street (ger y Caroline Street bresennol).

Dylan Foster Evans

Wedi pleidlais, roedd rhwng 70% ac 80% o blaid dysgu'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd. Gwrthwynebu hyn wnaeth y *Cardiff British League*. Pan ymwelodd y Gwyddel, Padraig Pearse, â Chaerdydd, doedd ganddo ddim da i'w ddweud am ei brofiad eisteddfodol ymysg brenin-garwyr, ond canmolai i'r cymylau yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Grangetown.

Rhai o'r Gangen yn Y Bont-faen ar drywydd lolo Morganwg dan gyfarwyddyd Carys Whelan

Athrawes yn Ysgol Gynradd Kitchener Road oedd Moelona a disgybl iddi oedd WC Elvet Thomas. Ym Mhontcanna roedd hi'n byw pan ysgrifennodd *Teulu Bach Nantoer*. Roedd Capel Bethania, Loudon Square, y Dociau, yn enwog am arbenigedd y gerddoriaeth yno dan gyfarwyddyd tad Clara Novello Davies (1861-1943). Daeth ei chorau merched yn fyd-enwog.

Noson wych oedd hon i goroni blwyddyn o gyfarfodydd cofiadwy.

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar noson cyfarfod blynyddol y llynedd, creodd tîm pêl-droed Cymru hanes yn Ffrainc trwy guro Rwsia o dair gôl i ddim. Eleni, nos Lun, 19 Mehefin, gwres llethol oedd y nodwedd fydd yn aros yn y cof. Yn dilyn y cyfarfod busnes treuliwyd amser difyr yng nghwmni dwy o'n haelodau.


Dr Margaret Roberts a Dr Rosina Davies

Hanes bywyd a diddordebau amrywiol Winifred Coombe Tennant (1874-1956) oedd gan y Dr Rosina Davies. Ar ôl priodi, ymgartrefodd y wraig ryfeddol hon yng Nghastell-nedd a dod i gysylltiad â theulu enwog Aberpergwm. Ymddiddorai yn nhraddodiadau Cymru ac yn arbennig yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ei barn hi roedd golwg ofnadwy ar y gorseddogion. Hi oedd *Mam o Nedd,* a bu'n feistres y gwisgoedd o 1923 i 1934. Gadawodd waddol sylweddol ar ei hôl i sicrhau bod y gwisgoedd y weddus. Ymddiddorai ym myd celf a rhoddodd nawdd i Kyffin Williams. Sicrhaodd un o weithiau Gwen John i Oriel Glynn Vivian. Safodd dros y Blaid Ryddfrydol yn etholiad 1922 a bu'n gynrychiolydd yng Nghynghrair y Cenhedloedd Unedig. Ymddiddorai mewn ysbrydegaeth. Roedd yn heddychwraig ac yn gefnogol i'r *suffragettes*.

Mae Dr Margaret Roberts yn feistres ar sawl crefft wnïo yn ogystal â gallu i beintio. Mae hi a'i chwaer, Helen Thomas, fel eu mam o'u blaen, yn creu pethau hardd dros ben. Daeth â sawl enghraifft o'i gwaith gyda hi. Bu'n cwiltio a gwneud clytwaith, a mynd ymlaen i greu dillad o safon uchel. Gwelsom enghreifftiau tlws o deganau meddal a rhyfeddu at fireinder y peintio ar lestri gwynion. Yr enw ar rai sy'n dymuno gadael yr Undeb Ewropeaidd yw '*kipper*' bellach ond teis poblogaidd i fechgyn ffasiynol oeddent ar un cyfnod. Daeth y teis *kipper* a wnïai Margaret ar gyfer aelodau'r teulu mor boblogaidd nes bo timau rygbi yn eu harchebu!

Dymunwyd yn dda i Falmai, ein Llywydd, a fydd yn derbyn triniaeth ysbyty cyn bo hir.

Taith Haf y Gymdeithas

Ar fore glawog a diflas y pumed o Fehefin cychwynnodd 19 o aelodau o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar eu taith haf flynyddol – i dre glan môr Torquay y tro hwn. Gwellodd y tywydd erbyn cyrraedd yno diolch byth! Dyma'r seithfed taith a drefnwyd gan Falmai Griffiths, Cadeirydd diwyd y Gymdeithas, a thros y blynyddoedd ymwelwyd â Llangollen, Llanberis, Llandudno, Cernyw, Efrog, Eastbourne ac, eleni, Torquay. Yn ystod yr wythnos ymwelwyd â Totnes, Dartmouth, Abaty Buckfast, Brixham a Paignton. Y cwestiwn mawr ar wefusau'r aelodau fuodd ar y daith oedd, ble nesa? Amser a ddengys!

Criw'r Gymdeithas mewn hwyliau da

Y Gymdeithas Wyddonol

Am resymau personol mae llawfeddygaeth orthopedig yn dal fy sylw ar hyn o bryd, yn benodol y wedd arni sy'n ymwneud â gosod clun newydd. Cymal pelen a soced yw'r un sy'n cydio'r pelfis wrth asgwrn uchaf y goes (y ffemwr). Dros flynyddoedd o ddefnydd amrywiol, gan gynnwys cerdded, rhedeg, nofio, mynydda a holl newidiadau cyfeiriad sydyn mewn amryfal chwaraeon, mae'r defnydd rhwng y belen a'r soced yn dirywio, gan beri bod asgwrn yn crafu ar asgwrn a gadael 'briwsion', sy'n rhwystro unrhyw symud llyfn ac yn peri nad yw'r cymal mwyach yn effeithiol. Yr ymateb meddygol, cyfarwydd a thra chyffredin erbyn hyn, yw gosod clun newydd, sef y broses o hollti'r hen gymal, clirio'r 'briwsion', glanhau a llynfhau lle yn asgwrn y pelfis i dderbyn soced newydd, gosod pelen newydd sydd a 'choes' yn y soced a sicrhau bod y 'goes' yn cael ei lleoli yn y ffemwr (sydd megis silindr gwag) fel bod y cyfan yn ffitio'n daclus a chadarn,

Mor hawdd yw crynhoi'r hanes yn fras fel hyn ond rhaid cofio bod y 'cyfarwydd' wedi dod ar gefn blynyddoedd o arbrofi ac addasu. Yr elfen Titaniwm (symbol cemegol T i) yw'r 'newydd' yn y broses, a hynny oherwydd bod ganddo nodweddion cwbwl addas at y gofyn, e.e.mae'n ysgafn (dwyster 4.54gm/cm3) ac yn wydn ac yn asio'n fiocemegol ddidrafferth gyda deunydd asgwrn y corff dynol. Yn rhinwedd y nodweddion hyn defnyddir y metel hwn yn helaeth mewn amrywiol ddiwydiannau gan gynnwys gwneuthuriad awyrennau a thrwsiadau dannedd. Mae i'w gael ar ffurf mwynau mewn creigiau ac yn cael ei newid yn fetel pur drwy broses ddiwydiannol. Ei rif atomig yw 22, hynny yw, titaniwm sy'n cymryd ei le ym 'mlwch' 22 yn Nhabl Cofnodol yr Elfennau sy'n dechrau gyda'r nwy hydrogen.

Darganfuwyd y metel yn 1791 gyntaf gan Y Parchedig William Gregor yng Nghernyw. Wn i ddim beth oedd yn sail i'w chwilfrydedd ond pasiodd tua 125 mlynedd tan i feddygon adnabod ei ddoniau cudd.

Wrth gloi, a chyfeiro'n ôl at y diddordeb personol, braf dweud bod arwyddion calonogol o adferiad llwyr. Mil diolch i Ysbyty Llanddochau.

Neville Evans

Rhif: 174

	A			
D	I	N	E	S
	R			

Ar Draws

2. Aelod yn dechrau bod yn synhwyrol (3)
5. Un sy'n trin croen wedi'i ddal mewn clebar ceryddgar (6)
7. Mae caniadau o fawl yn emau adnewyddol (6)
9. ' ----- ----- ----- ----- hwyl-longau'n
   Cerdded ar hyd llwybrau'r lli' (DGJ) (2,2,5,1'1)
10. Cadernid yn swnio'n llai nerthol (6)
11. Galw am help! Mae Ceri wedi colli'i ben dan y cwpanau (6)
13. 'Y dyfroedd a olchant fy enaid,
    ----- ----- , er amled fy mai'(TJ) (2,4)
16. Gwastraffu calon y ffafrau tywyll (6)
18. 'Yno ----- ----- enw
    A osododd Duw yn lawn' (AG) (3,7'1)
19. Niweidio cais y lloi drwg (6)
20. 'Fe dyfai'r ----- melyn
    Nes cyrraedd at fy ngên' (IDH) (6)
21. Ynteu'n gwasgu'r nerfau (3)

I Lawr

1. Tocio'r barf yw bwriad rhannol y torrwr gwallt (6)
2. Mae'r pen bancwr segur yn druenus a gwan (6)
3. Ust! Edrych! Lluest! Ar yn ail byddwn siriol (6)
4. Un sy'n tanio ergyd at arthes wyllt William (6)
6. Cydymaith byr yn siapio a dilyn trefn (11)
8. Yn darlunio disgyn yn lletchwith a difrodi'r ifori (2,9)
10. Mae'r sgweiar yn dal y rhwyd (3)
12. Planed ar dy war (3)
14. Cofnod yn codi mewn chwyldro cerddorol (6)
15. Cri dyn yn atsain mewn tywydd garw (6)
16. Ordro brechau amrywiol (6)
17. Deigryn panda ar yn ail yn creu deall(6)



Enillydd Croesair Rhif 172
Eleri Sheppard, Penylan, Caerdydd

Atebion Croesair Rhif 172

Ar Draws 6. Gwlithog 7. Traed 9. Clear 10. Blodeuo 12. Gad im glywed 14. Camgymeriad 18. Sonedau 19. Cododd 21. Digon 22. Heulwen

I Lawr 1. Gwalch 2. Difetha 3. Rhod 4. Tradwy 5. Mefusen 8. Blaguro 11. Diamcan 13. Nadolig 15. Gweddol 16. Arogli 17. Collen 20. Oen

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi 2017.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Proms Cymru yn ôl am dymor 32!

Bydd Proms Cymru yn ôl yn Neuadd Dewi Sant rhwng Gorffennaf 22 a 29 gydag arlwy at ddant pawb. I gychwyn ceir Strafagansa Clasurol ar yr 22ain ac yn y rhaglen bydd darnau gan Strauss, Faure a Wagner gan orffen gydag Agorawd 1812 gan Tchaikovsky gyda Cherddorfa Opera Cenedlaethol Cymru. Noson o Gampweithiau wedyn ar y 25ain yn cynnwys y bytholwyrdd gonsierto rhif 2 i'r piano gan Rachmaninov, gyda'r athrylith John Lill wrth y piano.

Os ydych chi'n hoffi môr o ganu Cymraeg yna bydd noson Pres a Lleisiau ar Orffennaf 26ain wrth eich bodd. Tri chôr meibion a Band Cory yn perfformio mawrion y byd opera a chaneuon traddodiadol Cymraeg. Am y tro cyntaf ceir Noson yn y Sinema ar Orffennaf 28ain yn cynnwys nifer o ddarnau gan John Williams, sy'n dathlu ei benblwydd yn 85 eleni.

Ar y 29ain daw Proms Cymru 2017 i ben gyda hwyl a sbri y Noson Olaf draddodiadol ond eleni gyda darn comisiwn newydd sbon sef consierto i'r ewffoniwm gan Paul Mealor, a David Childs yn ei pherfformio. Am y tro cyntaf bydd y Gerddorfa Philharmonig Frenhinol yn gerddorfa breswyl am dair noson (25ain, 28ain a 29ain).

Bydd y cyfan, fel arfer, dan faton y Cymro, Owain Arwel Hughes, sydd ei hun yn dathlu ei benblwydd yn 75 eleni. Dewch yn llu!

Calan McGreevy

Bwytai Merch y Ddinas Lowri Haf Cooke

Mae wythnos cyntaf Awst, fel arfer, yn golygu un peth i Gymry Cymraeg, sef wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. I'r teulu Cooke, ceir dathliad arall union 'run pryd, wrth nodi fy niwrnod pen blwydd! Maddeuwch yr ymffrost; fel y gallwch ddychmygu, nid hawdd oedd cynnal parti pen blwydd yn blentyn, â phawb o'm cwmnpas un ai'n cystadlu mewn pabell neu'n torheulo ar draeth hirbell. Ond â minnau'n oedolyn, mae'n gyfle perffaith i wledda, a dathlu dros bryd o fwyd gwych.

Felly y cwestiwn anochel yw, pa fwyty aiff â hi? Ac i ryw raddau, rhaid meddwl am fy ffefryn. Dros y blynyddoedd, dathlias fy mhen blwydd yn bistro Casa Mia, bwyty Cibo a Greenwood and Brown. Yn anffodus, fel sy'n wir am nifer o fwytai'r ddinas, mae'r tri ffefryn wedi hen gau lawr. Ges i siom wrth glywed am dranc y tri, ond dyna ni, felly mae'r rhod yn troi...

Gallen i'n hawdd ddewis La Cuina neu Bully's yn Nhreganna, neu westy Arbennig gerllaw. Ac am fwyty Eidalaidd, mae'n anodd curo Casanova, ond eleni, dwi am drio drws nesa. Fe wyddoch, erbyn hyn, mae fy hoff bryd bwyd i yw stecen Gymreig; *medium-rare*, os gwelwch yn dda! Yn wir, yn yr union golofn hon yn 2014, sgwenais lythyr o serch i Greenwood and Brown (y Model Inn ar ei newydd wedd) oherwydd perthynas fy nhylwyth â golwyth y ddau le. Trueni felly oedd deall fod cwmni Brains wedi colli ffydd yn *steakhouse* Heol y Cei.

Ond ddyddiau'n unig wedi i'r daranfollt honno fy nharo ddechrau'r flwyddyn, clywais newyddion o lawenydd mawr. Yn yr union leoliad hwnnw – lle arferai Taid Pant fwynhau ei stêc yn y 1930au – deallais fod Tom ac Owen Morgan o Bar 44 am barhau â'r traddodiad teuluol. Ac ers agor ym mis Mawrth, mae bwyty Asador 44 wedi denu canmoliaeth di-ben-draw, am gynnig stecen o fri, â blas o Sbaen.

Bydd y rheiny ohonoch sy'n gyfarwydd a'r Wladfa yn gyfarwydd â'r gair 'Asado' – i ddisgrifio gwledd o gig wedi ei grilio. Yr un tarddiad sydd i Asador, o Ogledd Sbaen; yn benodol, Galicia, Asturias a Gwlad y Basg. Lleolir rhai o fwytai gorau'r byd yn y rhanbarthau hyn, gan olygu fod Caerdydd ar ei hennill ag Asador 44.

Gyda'r bwyty wedi agor ers diwedd mis Mawrth, ces i ddigon o gyfle i astudio'r fwydlen - a rhai o'r prisiau, sy'n denu dagrau i'r llygaid. Bûm felly, tan yn ddiweddar, yn hapus i aros tan fis Awst, tan i mi glywed am y dêl cinio di-guro. £10 am sglodion a stecen o gig eidion Sir Gâr, neu ddewis llysieuol, neu bysgodyn – mae na ganmol mawr i'r torbwt ffres o'r farchnad. Wel mynd fu'n rhaid, gan brofi 'tamaid i aros pryd', i arbed siom ar ddechrau mis Awst.

Mae'r bwyty'n fendigedig, gyda'i dodrefn pren clasurol, ac oergell gig i ddenu dŵr i'r dannedd! Ceir hefyd stafell win, a – coeliwch neu beidio - ogof gaws, a naws gynnes, hamddenol braf. Ynghyd â'r cig melfedaidd, a'r hanner *carafe* o win Tempranillo, cawsom blatiad bach o gawsiau o Sbaen – i gyd am lai nag £20 yr un. Fel yn achos Curado Bar, rai llathenni i ffwrdd, ceir dewis anhygoel o gawsiau blasus o Sbaen. Sawrais gaws Cabrales glas o Asturias, Idiazábal wedi'i fygu ger Donostia, a chaws rhosmari o ranbarth La Mancha.

Gadewais yn fodlon iawn fy myd, ac yn breuddwydio am ddychwelyd cyn hir, i gael rhannu asen y Rubia Gallega o Galicia – sef seren ddisgleiriaf y fwydlen. Does dim dwywaith amdani, mai Asador 44 yr aiff â hi ar y 7ed o Awst eleni, cyn bomio hi fyny yr A470 i ddathlu â'm Cyd-Gymry yn Sir Fôn!

Asador 44, 14-15 Heol y Cei, Caerdydd CF10 1EA; (029) 2002 0039

***Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99**

Murlun o waith disgyblion Ysgol Nant Caerau - gweler tud. 17

Gŵyl Flodau Eglwys Dewi Sant
Dathlu 60 yn y Cilgant –
Yn Ôl Traed y Seintiau Celtaidd

Ar ôl llawer o ymchwil, cynllunio a pharatoi dros y ddwy flynedd diwetha mae'n dda gallu dweud i'r Ŵyl Flodau (22-25 Mehefin) fod yn llwyddiant ysgubol. Cafodd yr eglwys ei gweddnewid gan osodiadau godidog yn dehongli bywydau'r Seintiau, a daeth bron i 1000 o ymwelwyr i'w gweld. Daeth grwpiau o eglwysi a chapeli Caerdydd, ynghyd â chymdeithasau trefnu blodau, at ei gilydd i greu y gwahanol osodiadau ac roedd cyd-weithio a theimlad o gyfeillgarwch hyfryd yn yr eglwys ar hyd yr wythnos.

Donald Morgan o Lanrhystud - ein cyflwynydd ar noson gyntaf yr Ŵyl

Trefniant Santes Dwynwen - gan Eglwys y Tabernacl

Trefniant Santes Non - gan Glwb Blodau Cyncoed

Agorwyd yr Ŵyl gyda gwasanaeth byr llawn teimlad fore Iau a chafwyd noson hwyliog yng nghwmni Donald Morgan, trefnydd blodau heb ei ail. Bu ei fodryb yn olrhain hanes Seintiau Celtaidd Ceredigion tra roedd Donald yn creu 6 trefniant blodau ar sail yr hanesion. Roedd y neuadd dan ei sang yn ei wylio, yn mwynhau ac yn elwa o'i wybodaeth.

Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Hosbis Marie Curie, Penarth, ac Eglwys Dewi Sant.

Teyrnged i Dewi Sant ei hun - gan dîm yr Eglwys

Trefniant Sant Beuno - gan gapel Ebenser ac Eglwys yr URC